Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
03/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
29/01/2019

# Addasiadau a Newidiadau mewn Ysgolion ar gyfer Gweithredu Cwricwlwm ac Asesu

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-78964-662-7

Teitl: Addasiadau a Newidiadau mewn Ysgolion ar gyfer Gweithredu Cwricwlwm ac Asesu

Awdur(on) / Cwmni: Dyfan Powel / Wavehill

wavehill

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysyllter â:
Rhian Davies
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6791
Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Methodoleg ........ 14
3. Canfyddiadau ........ 21
4. Dadansoddi'r Rheoli Newid ........ 55
5. Casgliadau ........ 65

Atodiad A ........ **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad B ........ 78

Atodiad C ........ 79


**Tabl ffigyrau**


Llun 1: Un o sawl fersiwn o'r pedwar diben craidd sydd wedi'u harddangos mewn un Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol ........ 28

Ffigwr 3.1: Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol (yn gyffredinol) ........ 30

Ffigwr 3.2: Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol (yn ôl rôl) ........ 31

Ffigwr 3.3: Credaf mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm ........ 32

Ffigwr 3.4:Nid wyf yn gwybod beth fydd gofynion fy rôl o dan y cwricwlwm newydd ........ 39

Ffigwr 3.5:Nid wyf yn gwybod beth fydd gofynion fy rôl o dan y cwricwlwm newydd (rôl staff)40

Llun 2: Taflenni Cynllunio o Ysgol Uwchradd ddwyieithog sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm ........ 79

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 (blynyddoedd 3 i 6) |
| CA3 | Cyfnod Allweddol 3 (blynyddoedd 6 i 9) |
| CA4 | Cyfnod Allweddol 4 (TGAU neu flynyddoedd 10 ac 11) |
| CGY | Cynllun Gwella Ysgol |
| CSC | Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cynghorau Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf |
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn i flwyddyn 2 |
| DLI | Dyfodol Llwyddiannus |
| EAS | Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Torfaen |
| Egwyddorion addysgegol (*pedagogical principles*) | Dulliau addysgu, a 12 ohonynt wedi'u hamlinellu'n glir yn nogfen Dyfodol Llwyddiannus |
| ERW | Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cynghorau Abertawe, Ceredigion, Castell-nedd a Phort Talbot, Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin |
| GwE | Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cynghorau Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn |
| HCA | Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| Partneriaeth Ddysgu | Mae Partneriaeth Ddysgu Cymru yn gwmni sy'n cynnig cyrsiau hyfforddi ac adnoddau o safon i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar |
| MDaPh | Maes Dysgu a Phrofiad |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd / Organisation for Economic Co-operation and Development |
| Rheolaeth ganol | Penaethiaid Adran neu Benaethiaid Cyfadran Maes Dysgu a Phrofiad |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| UDA | Uwch Dîm Arwain |
| Uwch Arweinyddiaeth | Penaethiaid ysgolion, dirprwy benaethiaid ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain |
| Ysgol Bartner | Ysgol nad yw'n rhan o'r rhwydwaith Arloesi |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru'.[1] Cynigai'r argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus y dylid cael newidiadau mawr i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru pob argymhelliad yn yr adroddiad.

1.2 Bydd y trefniadau newydd a gynigir yn berthnasol i bob ysgol a dysgwr yng Nghymru sydd rhwng 3 a 16 oed. Egwyddor allweddol y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yw bod yn rhaid iddynt fod yn briodol ar gyfer pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth. Nod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus yw galluogi athrawon i ddefnyddio eu sgiliau a'u creadigrwydd i ymateb i anghenion eu dysgwyr. Bydd yr oblygiadau i'w teimlo gan ysgolion ar sawl lefel a gallant fod yn wahanol yn dibynnu ar y lleoliad.

1.3 Cynigiai Dyfodol Llwyddiannus ddefnyddio un strwythur trefniadol ar gyfer y cwricwlwm ar draws yr ystod oedran gyfan rhwng 3 ac 16 oed yn hytrach na'r cyfnodau dysgu a'r disgyblaethau pwnc presennol.

1.4 Argymhellai Dyfodol Llwyddiannus gwricwlwm sy'n canolbwyntio ar ddatblygu plant a phobl ifanc yn unol â'r pedwar diben canlynol:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

1.5 Argymhellai'r adroddiad y dylai'r cwricwlwm gynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad, a dylai pob un o'r chwech wneud cyfraniadau pendant a chryf i ddatblygu'r pedwar diben mewn dysgwyr. Mae hyn yn dangos newid o'r gwahaniaethu presennol rhwng pynciau craidd a sylfaen yn y cwricwlwm. Dylid datblygu dysgu ar draws y cwricwlwm hefyd trwy dri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol).

[1] Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

1.6 Argymhellai Dyfodol Llwyddiannus y dylai cynnydd fod yn seiliedig ar gontinwwm dysgu sy'n llifo o 3 oed i 16 oed ac ymlaen, a phob plentyn yn dilyn hwn: 'Dylai dysgu gael ei weld yn debyg i daith, gyda mannau aros, gwyriadau a hyrddiau o gynnydd.' Argymhellai'r adroddiad y dylai'r holl athrawon ddeall sut y bydd eu mewnbwn yn cyfrannu at gyrraedd y pen draw yn y continwwm dysgu yn hytrach na bod yn ddiwedd eu cam neu gyfnod. Gwelir hyn yn yr argymhellion i ddileu'r Camau Allweddol a chyflwyno Pwyntiau Cyfeirio ar gyfer Cynnydd.

1.7 Mae 'Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am Oes' (Llywodraeth Cymru, 2015) yn disgrifio cynllunio ar gyfer datblygu a gweithredu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Amlinella'r ddogfen y gwaith o ddatblygu rhwydwaith o ysgolion Arloesi a fyddai'n derbyn cyllid ychwanegol i ddatblygu elfennau allweddol cwricwlwm sydd wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae model ysgolion Arloesi yn canolbwyntio ar dair ffrwd gwaith:

1) Y Cwricwlwm ac Asesu gan gynnwys Meysydd Dysgu a Phrofiad;
2) Dysgu Proffesiynol;
3) Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

1.8 Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau grŵp dethol neu 'sampl cyfleus' o ysgolion Arloesi, ac ysgolion Partner. Mae'r ysgolion hyn yn enghreifftiau o ysgolion ledled Cymru sydd wedi dechrau addasu (e.e. trwy newidiadau i gyflwyno'r cwricwlwm, strwythurau rheoli, amserlennu, ac ati) er mwyn adlewyrchu o fewn eu lleoliad eu hunain y cwricwlwm a'r trefniadau asesu a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus. At hynny, mae ysgolion nad ydynt yn rhan o'r model Arloesi hefyd wedi cymryd camau tebyg i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Dyfodol Llwyddiannus. Gyda'i gilydd, mae'r ysgolion hyn yn rhoi syniad o effaith cyflwyno cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar strwythurau a threfniadau, yn ogystal â'r manteision a'r heriau i ysgolion yn sgil cyflwyno cwricwlwm a threfniadau asesu o'r fath. Diben yr ymchwil hwn yw casglu'r dystiolaeth hon yn systematig i gefnogi dealltwriaeth o effaith y newidiadau arfaethedig ar ysgolion.

## Nodau ac amcanion yr ymchwil

1.9 Nod yr ymchwil yw deall sut mae ysgolion yn paratoi ac yn newid trefniadau eu gweithgarwch i adlewyrchu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus.

1.10 Yn fwy penodol, mae'r adroddiad yn ystyried y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Ym mha ffyrdd y mae ysgolion wedi addasu neu'n cynllunio i addasu eu strwythurau i'w cynorthwyo i gymryd camau tuag at y mathau o gwricwlwm a threfniadau asesu a argymhellir yn Dyfodol Llwyddiannus?
- Ym mha ffyrdd y mae ysgolion wedi addasu eu dysgu a'u haddysgu i adlewyrchu'r mathau o gwricwlwm a threfniadau asesu a argymhellir yn Dyfodol Llwyddiannus?
- Pam fod ysgolion wedi gwneud y newidiadau?
- Pa heriau sy'n gysylltiedig ag addasu gweithgarwch fel hyn?
- Sut mae'r newidiadau/dulliau hyn wedi paratoi a chefnogi ymarferwyr ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus?
- A oes gan ysgolion gynlluniau ar gyfer gwneud newidiadau eraill i strwythurau addysgu a dysgu i baratoi at newidiadau i'r system addysg yng Nghymru?

1.11 Er mwyn archwilio'r cwestiynau hyn, ceisia'r ymchwil gyfoethogi'r dadansoddi ar y gweithgareddau trwy edrych ar y newidiadau o safbwynt 'rheoli newid'.

### Cyfyngiadau

1.12 Mae amcanion yr ymchwil yn gymharol eang, a chyfle i archwilio ystod o ffactorau sy'n ymwneud ag ysgolion sy'n datblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Er hynny, mae'n bosibl nodi cyfyngiadau'r ymchwil hwn.

1.13 Yn gyntaf, mae cwmpas yr ymchwil hwn a'r data a gasglwyd wedi'u cyfyngu i ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner y gwyddys eu bod wedi cymryd camau i addasu a datblygu strwythurau mewn perthynas â'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, hynny yw 'sampl cyfleus'. Mae'r ysgolion hyn, oherwydd eu natur, yn rhai o'r rhai mwyaf datblygedig o ran cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Ni ddylid cyffredinoli canfyddiadau'r ymchwil hwn na'u cymryd i fod yn gynrychioladol o ysgolion eraill yng Nghymru.

1.14 Yn ail, ni fwriedir i'r ymchwil hwn werthuso neu roi barn am y gweithgareddau a'r newidiadau a wneir gan yr ysgolion ar sail y weledigaeth a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus a'r dogfennau cysylltiedig. Lluniwyd yr ymchwil i gofnodi a deall y newidiadau a wnaed, yn ogystal ag archwilio barn staff a llywodraethwyr am yr heriau, y cymhellion a chostau'r newidiadau.

1.15 Yn ogystal, nid yw'r ymchwil hwn yn ceisio gwerthuso'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi ac effeithiolrwydd cyllid Ysgolion Arloesi wrth ddatblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Gwerthuswyd y model hwn eisoes, ac mae'r adroddiad ar gael ar lein.[2]

1.16 Yn olaf, mae'r canfyddiadau yn cyfleu teimladau, barn a safbwyntiau'r staff a gyfwelwyd a'r grwpiau ffocws. Nid yw datganiadau a wneir o reidrwydd yn adlewyrchu gwirionedd na ffeithiau'r broses o newid y cwricwlwm yng Nghymru, dim ond barn yr athrawon hynny mewn ysgolion dethol sy'n ceisio gweithredu a rheoli newid o'r fath.

**Newid Cwricwlwm ac Adolygu Llenyddiaeth**

1.17 Mae'r adran hon yn cyflwyno amlinelliad o'r dystiolaeth sy'n archwilio diwygio cwricwlwm a'i weithredu mewn ysgolion. Cyflwynir ffactorau sy'n dylanwadu ar weithredu, cyn astudio ymchwil sy'n cefnogi ein dealltwriaeth o ymdrechion diwygio blaenorol. Mae'r rhan hon yn ystyried rhai o'r heriau wrth adolygu gweithredu cwricwlwm trwy ymchwil, a sut y gallant fod yn sail i ddull yr ymchwil hwn. Wrth ddatblygu ei dadansoddiad, mae'r rhan hon yn tynnu ar ystod o ymchwil, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm, rheoli newid mewn ysgolion, a gwyddorau gweithredu ehangach.

*Amcanion Diwygio Cwricwlwm*

1.18 Nod diwygio'r cwricwlwm yw newid yr hyn sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys yr hyn y mae'r plant yn cael eu haddysgu a sut y maent yn cael eu haddysgu.

1.19 Mae'r diwygiadau yn Dyfodol Llwyddiannus yn golygu symud o ddiwylliant cymharol orchmynnol yn ymwneud â'r cwricwlwm tuag at ddull mwy datblygol sy'n gosod athrawon yn gyfrwng newid ac yn ddatblygwyr proffesiynol ar y cwricwlwm. Hyrwydda ymarfer mwy hyblyg sy'n canolbwyntio fwy ar y disgyblion nag o'r blaen, yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnwys a gwybodaeth. Mae'r

[2] Gweler Gwerthusiad ffurfiannol o fodel Ysgolion Arloesi

diwygiadau felly yn ymwneud â newid yr *hyn* y mae'r plant yn cael ei addysgu – gan symud o roi pwyslais ar wybodaeth i roi pwyslais ar sgiliau – a *sut* y cânt eu haddysgu, gan roi mwy o hyblygrwydd i athrawon wrth ddiffinio eu rhyngweithio â'u dysgwyr.

1.20 Mae diwygiadau trwy ddeddfwriaeth yn ceisio gweithredu newid; fodd bynnag, nid ydynt yn ysgogwyr polisi deddfol. Maent yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth sydd bob amser yn symud. Nid yw diwygiadau byth yn ddigyswllt, ond yn hytrach wedi'u plethu yn rhan o fframweithiau polisi, strwythurau sefydliadol a chymunedau ymarfer sy'n bodoli eisoes.

*Diwygio Cwricwlwm*

1.21 Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodweddiadol o sawl tuedd ryngwladol mewn polisi cwricwlaidd, trwy ei bwyslais ar sgiliau a chymwyseddau generig, ei ffocws ar addysgeg, ac ymestyn ymreolaeth i athrawon i fod yn gyfryngau newid.[3] Mae cwricwla o'r fath yn peri heriau, gan fod ymarfer cyfredol yn aml yn groes i ddyheadau polisi. Mae'r graddau y caiff diwygiadau eu hymgorffori'n llwyddiannus mewn ysgolion yn gallu dibynnu ar ystod o ffactorau. Gellir cyfuno'r rhain yn dri chategori gwahanol, ond eto yn rhai sydd â chyswllt annatod rhyngddynt, fel yr amlinellir isod.

*1. Nodweddion ar lefel yr unigolyn*

1.22 Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau yn ymwneud ag athrawon a staff unigol, gan gynnwys y farn sydd gan athrawon tuag at addysg yn gyffredinol a'r diwygiadau yn fwy penodol. Yn wir, mae'r rhain yn seiliedig ar wybodaeth aelodau'r staff am y diwygiadau arfaethedig, y sail resymegol sylfaenol dros newid, a sut mae diwygiadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys pa mor eglur ac aml yw'r cyfathrebu, a'r amser a'r cyfle a roddir i athrawon i archwilio ac ystyried safbwyntiau a datblygiadau newydd mewn addysg.[4]

1.23 Mae lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth yn llywio canfyddiadau ac agweddau athrawon tuag at ddiwygio. At hynny, os ymddengys bod y diwygiadau arfaethedig yn cyd-fynd â dealltwriaeth sylfaenol a chynhwysol athrawon o rôl a phwrpas addysg, yna byddant yn fwy tebygol o gefnogi a mabwysiadu'r cynigion. Os nad ydynt yn cyd-fynd,

[3] Gweler Biesta & Priestley (2013) 'Capacities and the curriculum' yn Priestley & Biesta (goln), Reinventing the curriculum: new trends in curriculum policy and practice, Llundain: Bloomsbury.
[4] Nelson a Campbell (2017) 'Evidence-informed practice in education: meanings and applications' yn *Journal of Education Research*, 59: 127-135

bydd athrawon yn fwy tebygol o wrthsefyll newid neu blygu eu hymarfer tuag at yr hyn yr ystyrient yw eu hamcanion neu eu gwerthoedd craidd eu hunain.[5]

1.24 Awgryma'r ymchwil a gynhaliodd Wavehill ar gyfer y Sgwrs Fawr[6] fod athrawon, ar y cyfan, yn gyffredinol gefnogol i natur a chyfeiriad y diwygiadau arfaethedig sydd yn Dyfodol Llwyddiannus. I lawer o ymatebwyr, roedd y diwygiadau'n cynnig arf dymunol yn erbyn yr hyn a gredid yn gyffredinol oedd problemau a diffygion y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol. Er y bydd amrywio mawr bob amser ym marn ac agweddau athrawon tuag at ddiwygio, gallai hyn awgrymu na fydd agweddau yn rhwystr sylweddol i roi'r cwricwlwm ar waith.

1.25 Nid agweddau yw'r unig ffactorau sy'n dylanwadu ar weithgarwch dosbarth. Gall athrawon gefnogi'r newidiadau arfaethedig, ond efallai na fydd digon o adnoddau i integreiddio diwygiadau yn llwyddiannus yn ymarferol. Mae lefelau cefnogaeth cydweithwyr, cymorth proffesiynol, arweiniad, hyfforddiant a'r amser a roddir i ddiwygiadau yn dylanwadu'n uniongyrchol ar allu athrawon i weithredu newid. Mae datblygu cwricwlwm ysgol ynddo'i hun yn ddwys ar adnoddau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon neilltuo amser a sylw i weithgareddau fel cynllunio gwersi.[7]

1.26 Pennir lefelau'r cymorth, arweiniad a gwybodaeth sydd ar gael i athrawon gan ystod o ffactorau, gan gynnwys llawer nad ydynt dan eu rheolaeth. Heb ddigon o gefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth, gall athrawon fynd yn ôl at ymarfer sefydledig, gan gyfyngu'r newid i brofiadau dysgu a gwneud y bwlch gweithredu yn fwy. Mae lefelau'r cymorth, arweiniad a gwybodaeth hefyd yn tynnu sylw at y berthynas rhyng-gysylltiedig rhwng nodweddion ar lefel unigolion a'r nodweddion sefydliadol a diwylliannol ehangach sy'n llywio diwygio ar gwricwlwm.

1.27 Mae'r diwygiadau yng Nghymru yn ceisio rhoi mwy o fodd gweithredu i athrawon, gan gynnwys o ran cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae hyn yn newid yn y dull addysgegol, un sy'n rhoi mwy o bwyslais ar alluoedd athrawon unigol. I'w hintegreiddio'n llwyddiannus yn ymarferol, efallai y bydd gofyn i athrawon ddatblygu sgiliau a chymwyseddau newydd. Gallai'r newid yn y ffocws i fod ar ddatblygu sgiliau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i athrawon ddatblygu cymwyseddau diagnostig

---

[5] Collinson (2012) 'Sources of teachers' values and attitudes' yn *Journal of Teacher Development* 16: 321-344
[6] Ar gael yn [Dyfodol llwyddiannus: adroddiad at yr ymatebion i'r drafodaeth fawr]
[7] Keiny (1993) 'School-based Curriculum Development as a Process of Teachers' Professional Development' yn *Educational Action Research*, 1:1, 65-93

newydd, hynny yw, gallu'r athrawon i arsylwi, dadansoddi a chefnogi cynnydd disgybl.[8] Mae datblygu cwricwlwm yn yr ysgol ei hun yn gofyn am ystod eang o sgiliau penodol a allai fod yn brin mewn nifer o ysgolion.

1.28 Mae'r diwygiadau yn dileu'r ffocws ar ffiniau pwnc traddodiadol, gan yn hytrach yn ceisio cael mwy o ddysgu rhyngddisgyblaethol. Mae dulliau rhyngddisgyblaethol tuag at ddysgu angen sgiliau a galluoedd penodol i fod yn effeithiol. O ran dulliau rhyngddisgyblaethol dadleua Young a Muller y gall athrawon llai profiadol syrthio ar ei hôl hi'n ddiarwybod neu fethu camau cysyniadol a allai fod yn hollbwysig yn nes ymlaen.[9] Yn gysylltiedig agos ag adnoddau, gall effeithiolrwydd ymdrechion i feithrin gallu athrawon, gan gynnwys trwy Ddysgu Proffesiynol, fod yn hanfodol i lwyddiant y diwygiadau.

1.29 Mae gwybodaeth, agweddau, adnoddau a galluoedd yn bwysig gan eu bod yn y pen draw yn llywio'r hyn sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth. I newid ymddygiad, rhaid i athrawon ac ysgolion ddehongli a gweithredoli'r diwygiadau arfaethedig i'r cwricwlwm. Fel proses, mae hyn wedi'i gyfryngu gan yr ystod o ffactorau a amlinellir uchod. Mae'n bosibl dadlau mai newid yr ymarfer mewn ystafell ddosbarth yw un o ganlyniadau procsimol pwysicaf y diwygiadau.[10]

1.30 I grynhoi, mae'r nodweddion ar lefel unigolyn sy'n llywio rhoi cwricwlwm ar waith mewn ysgolion yn cynnwys:

- Gwybodaeth am bwrpas ac amcanion y diwygiadau
- Agweddau a barn athrawon ac uwch staff
- Adnoddau gan gynnwys amser, deunyddiau, a hyfforddiant a chymorth
- Galluoedd athrawon
- Sut mae athrawon yn ymddwyn yn yr ystafell ddosbarth

[8] Spitzer et al (2011) 'Developing pre-service elementary teachers' abilities to identify evidence of student mathematical achievement', *Journal of Mathematics Teacher Education*,*14*(1), 67–87.
[9] Young & Muller (2010) 'Three educational scenarios for the future: lessons from the sociology of Knowledge', *European Journal of Education*, 45(1), 11-27.
[10] Guskey, (2002) 'Professional development and teacher change', *Teachers and Teaching: Theory and Practice*, 8, 3/4, 381–391.

*2. Nodweddion ar lefel ysgol*

1.31 Mae yna nodweddion ehangach ar lefel ysgol sy'n dylanwadu ar fabwysiadu cwricwla newydd. Gall arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar lefel ysgol benderfynu ar y ffocws a'r gorchmynion gweithredol sy'n gyrru newid, gan gynnwys sut y defnyddir adnoddau. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn dibynnu ar bersonoliaeth, a gall gynnwys cymysgedd rhyng-gysylltiedig o rinweddau, gwerthoedd a chymwyseddau.[11] Gan ddefnyddio adfyfyriadau o adroddiad a luniwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg,[12] gall arweinyddiaeth effeithiol gynnwys:

- Cyfathrebu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer yr ysgol a gosod rhesymeg glir dros newid. Gall llwyddiant prosesau rheoli newid gael eu pennu gan allu arweinwyr ysgolion i greu sylfaen cefnogaeth eang i'r weledigaeth ymysg athrawon a staff.
- Gallu arweinwyr ysgolion i ddefnyddio gwahanol ddulliau arwain ar wahanol adegau o'r broses newid. Mae hyn yn cynnwys defnydd priodol o orchmynion neu berswâd i effeithio ar newid, yn ogystal â chadw mwy o reolaeth neu lai ohoni ar y broses newid ar adegau gwahanol, e.e. mwy o reolaeth wrth i ddiwygiadau gael eu gweithredu yn y lle cyntaf, ond yn raddol yn dirprwyo'r prosesau newid i athrawon wrth i'r cwricwlwm fagu gwreiddiau.

1.32 Mae arweinyddiaeth hefyd yn ffactor allweddol wrth lunio a chefnogi gallu'r ysgol yn gyffredinol i addasu. Yn gysyniad sy'n eithaf niwlog, mae gallu'r i addasu yn ymgorffori nifer o ffactorau ac adnoddau sy'n cefnogi gallu'r ysgol i ymateb yn effeithiol i newidiadau yn ei hamgylchedd gweithredu. Mae gweithredu diwygiadau i'r cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion addasu strwythurau, prosesau a diwylliannau ymarfer. Mae'r gweithredu ynddo ei hun yn broses y mae'n rhaid ei reoli a rhoi adnoddau iddo. Gall hyblygrwydd cyffredinol strwythurau'r ysgol, gan gynnwys llywodraethu, ac ymrwymiad yr ysgol i ddysgu a newid ddylanwadu ar gyflymder ac effeithiolrwydd ymdrechion i ddiwygio.

1.33 Mae ffactorau eraill sy'n llywio ymateb ysgol i ddiwygio yn cynnwys diwylliannau addysgu a dysgu. Cyfeirir atynt gan amlaf fel cymunedau ymarfer (*communities of practice*), a gellir eu diffinio, yn rhannol, fel proses o ddysgu cymdeithasol sy'n

[11] Day et al (2009) *The Impact of School Leadership on Pupil Outcomes: Final Report* (Adroddiad Ymchwil DCSF 108). Llundain: DCSF

[12] Maughan et al (2012) *What Leads to Positive Change in Teaching Practice* (Rhaglen Ymchwil NFER: Datblygu'r Gweithlu Addysg). Slough: NFER.

digwydd pan fo athrawon yn cydweithio dros gyfnod estynedig, gan rannu a throsglwyddo syniadau, gwerthoedd a strategaethau ymarferol. Gall cymunedau ymarfer fod yn gatalydd neu'n rhwystr i newid. Gall hyn ddibynnu ar gydlyniad y grŵp, ac a yw'r diwygiadau'n adlewyrchu naratif a disgwyliadau cyffredinol y grŵp yn ei gyfanrwydd ai peidio.

1.34 Yn ehangach, gall nodweddion ysgol hefyd bennu ei gallu i reoli a gweithredu newid. Gall hyn gynnwys y cymunedau y mae ysgol yn eu gwasanaethu, yn enwedig y gymuned rhieni, a'r amgylchiadau a'r heriau ehangach y mae'r ysgol yn eu hwynebu. Efallai y bydd ysgol yn wynebu amrywiaeth o flaenoriaethau pwysig eraill a all ddargyfeirio amser a sylw oddi wrth ddiwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys recriwtio a chadw staff, gwella polisïau ac arferion rheoli ymddygiad. Bydd y rhain yn debygol o fod yn dominyddu'r blaenoriaethau uniongyrchol ac, o ganlyniad, yn dylanwadu ar y cynllunio ysgol ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

1.35 I grynhoi, mae nodweddion sefydliadol a diwylliannol sy'n llywio gweithredu cwricwlwm mewn ysgol yn cynnwys:

- arweinyddiaeth strategol a gweithredol yr ysgol
- gallu'r ysgol i addasu
- diwylliannau addysgu a dysgu'r ysgol
- nodweddion ac amgylchiadau ehangach yr ysgol.

*3. Nodweddion ar lefel System*

1.36 Mae ysgolion hefyd yn dod dan dylanwad ffactorau economaidd a gwleidyddol ehangach sy'n gallu llunio natur a chyfeiriad newid. Mae diwygiadau cwricwlwm wedi'u hymgorffori yn yr amgylchedd polisi cyffredinol y mae ysgolion yn gweithredu ynddo, gan gynnwys cymysgedd cymhleth o fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol. Gall cydlyniaeth cymharol yr amgylchedd polisi effeithio ar ba mor effeithiol yw diwygiadau i gwricwlwm. Ffactorau sydd yr un mor bwysig sy'n gysylltiedig â newid cwricwlwm yn llwyddiannus yw'r systemau a sefydlwyd gan y llywodraeth a sefydliadau ac awdurdodau addysg i gefnogi ysgolion.

1.37 Gall unrhyw densiynau a gwrthdaro ymddangosiadol o fewn a rhwng gwahanol bolisïau arwain at gystadlu rhwng blaenoriaethau i ysgolion ac athrawon a hynny'n gallu amharu ar yr ymdrechion i ddiwygio. Yn yr Alban, er enghraifft, mae cyfundrefnau arolygu a'r defnydd ar ddata cyrhaeddiad i werthuso wedi amharu ar y rhyddid a

roddwyd i athrawon mewn rhai achosion.[13] Roedd y croestyniadau amlwg yn ysgogi athrawon i barhau i ddefnyddio'r arferion addysgu a fodolai eisoes, gan gadw agweddau o ddiwylliannau perfformio mewn ysgolion, yn ogystal â hyrwyddo athrawon i wneud penderfyniadau oedd yn cyfrannu at hyn oll.

*Rhai negeseuon o ymchwil ehangach*

1.38 Mae'r diwygiadau yn Dyfodol Llwyddiannus yn adlewyrchu tueddiadau rhyngwladol ehangach yn ymwneud â diwygio cwricwlwm. Mae corff bach o ymchwil wedi ceisio archwilio profiadau ysgolion ac athrawon o weithredu cwricwlwm newydd.[14] Cyflwynodd yr Alban, er enghraifft, ddiwygiadau sy'n debyg i'r cynigion sydd ar y gweill yng Nghymru ar hyn o bryd. Cynhaliodd Priestley a Minty (2013) nifer o astudiaethau achos ar ysgolion, gan dynnu data o 21 o gyfweliadau manwl yn yr Alban. Mae'r prif ganfyddiadau yn cynnwys y canlynol:[15]

- Awgrymai'r data fod athrawon wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r diwygiadau.
- Ystyriai llawer fod y diwygiadau yn bennaf yn arloesedd addysgegol.
- Canfu'r astudiaeth amrywio sylweddol yn y cymhwyso ymarferol ar y diwygiadau i'r cwricwlwm.
- Roedd yna hefyd athrawon ac arweinwyr a oedd yn bryderus ynghylch sut yr oedd y diwygiadau yn cyd-fynd â threfniadau asesu ehangach a chymwysterau cenedlaethol.
- Roedd tensiynau eraill mewn polisi ac ymarfer, gan gynnwys tensiynau rhwng damcaniaethau dealledig athrawon am wybodaeth a dysgu a'r cwricwlwm newydd.

**Yr Adroddiad hwn**

1.39 Mae Pennod 2 yn parhau â'r adroddiad drwy amlinellu'r fethodoleg a'r fframwaith rheoli newid a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil hwn.

1.40 Cyflwyna Pennod 3 y canfyddiadau a'r dadansoddiadau o'r data a gasglwyd o'r cyfweliadau, y grŵp ffocws a'r holiadur yn ystod y gwaith maes.

[13] Priestley et al (2015) 'Teacher agency: what is it and why does it matter?' yn Kneyber & Evers (goln) *Flip the System: Changing Education from the Bottom Up.* Llundain: Routledge
[14] Sinnema, S. (2011). "Monitoring and Evaluating Curriculum Implementation: Final evaluation report on the implementation of The New Zealand Curriculum 2008-2009. Report to the Ministry of Education."
[15] Priestley, Mark a Minty, Sarah (2013) 'Curriculum for Excellence: 'A brilliant idea, but...' *Scottish Educational Review* 45 (1), 39-52

1.41 Mae Pennod 4 yn ystyried ac yn cymhwyso'r model rheoli newid, gan asesu'r llwyddiannau, y cryfderau a'r heriau i ysgolion wrth iddynt reoli newid.

1.42 Mae Pennod 5 yn mynd i'r afael â chwestiynau craidd yr ymchwil trwy ddod i gasgliadau.

1.43 Astudiaethau Achos: Er bod Pennod 3 yn tynnu ar y canfyddiadau empirig, ac yn aml yn cyfeirio at enghreifftiau i arddangos y pwyntiau a wnaed, mae astudiaethau achos llawn wedi'u cynnwys rhwng penodau i gynnig darlun llawnach o'r gweithgarwch ledled Cymru.

# 2. Methodoleg

2.1 Cytunwyd ar y fethodoleg hon gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar naw cyfweliad cwmpasu a gafwyd gyda rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd y cyfweliadau cychwynnol hyn gydag aelodau allweddol Adran Addysg Llywodraeth Cymru, y Consortia Rhanbarthol, Estyn, a phartneriaid allweddol eraill yn y byd addysg.

2.2 Roedd ffocws yr ymchwil ar ddata ansoddol manwl yn ymwneud â phrofiadau 19 ysgol a'u staff. O ganlyniad roedd y dulliau casglu data, ym mhob ysgol, yn cynnwys:

- 19 cyfweliad 45–60 munud yr un gyda'r penaethiaid
- 19 cyfweliad 45–60 munud yr un gydag un neu ragor o aelodau'r Uwch Dîm Arwain
- 18 cyfweliad 30 munud yr un gydag un neu ragor o lywodraethwyr ysgol
- 19 grŵp ffocws 30 munud yr un gydag athrawon ystafell ddosbarth
- 414 ymateb i holiadur staff ysgolion
- Dogfennau ysgolion ar Gynllunio a datblygu Arloesi
- Llenyddiaeth arall yn ymwneud ag ysgolion.

2.3 Wrth gynnal y cyfweliadau â staff ar lefel uwch, roedd yr ymchwilwyr wedi gallu cael sawl safbwynt a phrofiad mewn perthynas â gweithredu newid i'r cwricwlwm. Roedd hyd y cyfweliadau ag aelodau uwch staff yn rhoi modd i'r cyfweliadau lled-strwythuredig archwilio profiadau a sylwadau penodol y tu hwnt i'r canllaw trafod.

2.4 Roedd grwpiau ffocws gydag athrawon wedi rhoi modd archwilio barn a phrofiadau athrawon dosbarth mewn perthynas â gweithredu newid i'r cwricwlwm. O ganlyniad, roedd y dadansoddiad wedi tynnu ar brofiadau staff oedd yn ymwneud â strategaeth a gweithredu i gael safbwynt mwy crwn ar y newidiadau a'r addasiadau sydd ar y gweill wrth i ysgolion baratoi at y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

2.5 Roedd hwn yn 'sampl cyfleus', yn seiliedig ar fewnbwn gan Lywodraeth Cymru, y Consortia Rhanbarthol ac Estyn, o ysgolion y gwyddys eu bod wedi addasu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu.

2.6 Mae enwau ysgolion ac unigolion wedi'u dileu. Dyma'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy:

| | |
|---|---|
| CSC | Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Arweiniol Dysgu Proffesiynol)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Cymraeg (Arloeswr Cymhwysedd Digidol)<br>Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg (Ysgol Bartner) |
| EAS | Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg (Ysgol Arloesi)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Dysgu Proffesiynol)<br>Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Dysgu Proffesiynol)<br>Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg (Ysgol Arloesi)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm) |
| ERW | Ysgol Ganol Ddwyieithog (Math A) (Ysgol Arloesi)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Ysgol Bartner) |
| GwE | Ysgol Arbennig (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Cymraeg (Ysgol Bartner)<br>Ysgol Uwchradd Ddwyieithog (Math B) (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Uwchradd Ddwyieithog (Math A) (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Arbennig (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg (Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)<br>Ysgol Ganol cyfrwng-Cymraeg (Ysgol Arloesi) |

2.7 Rhoddwyd cod ar y data ansoddol o'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws er mwyn ei drefnu yn fframwaith thematig. Datblygwyd fframwaith cyffredin ar gyfer pob ysgol a'i gysylltu ag agweddau allweddol y model rheoli newid a ddefnyddiwyd yno a'r themâu a godai yn y cyfweliadau.

2.8 Roedd y fframwaith yn cynnwys grid dadansoddi er mwyn trefnu a dehongli data ansoddol. Mae copi o'r grid dadansoddi yn Atodiad A.

2.9 Ynghyd â'r cyfweliadau ansoddol a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd â staff, dosbarthwyd holiadur ymhlith staff yr ysgolion a samplwyd cyn yr ymweliadau gwaith maes. Roedd yr holiadur yn nodi 12 datganiad yn ymwneud â newid cwricwlwm a rheoli newid, a gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau hynny. Mae copi o'r holiadur yn Atodiad B.

2.10 Ceisiai'r holiadur gynhyrchu data meintiol ar farn y gweithlu ehangach yn yr ysgolion a samplwyd. Mae'r data yn cefnogi'r data ansoddol manwl a ddaeth o'r cyfweliadau. Yn fwy penodol, cynhyrchodd yr holiadur ddata yn ymwneud â dealltwriaeth y gweithlu o'r newidiadau ac aliniad ag egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus.

2.11 Dosbarthwyd yr holiadur gan staff gweinyddol yr ysgolion cyn yr ymweliadau gwaith maes.

2.12 Derbyniwyd cyfanswm o 414 ymateb i'r holiadur. Derbyniwyd 140 ymateb o ardal CSC, 78 ymateb o ardal EAS, 83 ymateb o ardal ERW a 113 ymateb o ardal GwE. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cynrychioli'r sampl o ysgolion ym mhob ardal, ac eithrio rhanbarth CSC. Ymwelwyd â llai o ysgolion yn ardal CSC, er y derbyniwyd mwy o ymatebion o'r ysgolion hynny nag o unrhyw un o'r ardaloedd eraill.

2.13 Daeth 44 ymateb gan uwch staff (penaethiaid, penaethiaid dros dro, dirprwy benaethiaid), 71 ymateb gan reolwyr canol (penaethiaid adrannau, cydlynwyr fframwaith digidol/llythrennedd/rhifedd / penaethiaid Maes Dysgu a Phrofiad), 256 ymateb gan staff addysgu eraill a 32 ymateb gan staff cymorth.

2.14 Mae'r sampl yn cynrychioli rhychwant o rolau staff, ond cofier y daw'r ymatebion o staff mewn ysgolion Arloesi ac mewn ysgolion Partner sydd wedi ymwneud â newid cwricwlwm. O'r herwydd, gellir disgwyl i'r ymatebwyr hyn, oherwydd eu natur, fod â gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm na'r gweithlu ehangach yng Nghymru.

**Y Model Rheoli Newid**

2.15 Tynnodd yr adolygiad llenyddiaeth sylw arbennig at adnoddau dynol ysgolion: yr arweinyddiaeth, staff, sgiliau ac agweddau. Roedd y cyfweliadau cwmpasu a gynhaliwyd wrth baratoi at yr ymchwil hefyd wedi datgelu cred gref ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol fod ysgolion mewn gwirionedd yn delio â newid diwylliannol, a bod rheoli newid o'r fath ymhlith y gweithlu yn allweddol i lwyddiant y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ac i'w ddatblygiad. Oherwydd y rhesymau hyn, yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, mabwysiadodd yr ymchwil safbwynt rheoli newid er mwyn gallu mynd ati'n briodol i ddadansoddi data a chanfyddiadau'r ymchwil.

2.16 Mae'r safbwynt rheoli newid yn rhoi modd canolbwyntio nid yn unig ar y strwythurau caled sy'n cael eu haddasu a'u newid, ond hefyd ar yr adnoddau dynol a strwythurau 'meddalach' mewn ysgolion megis y bobl, arweinwyr, sgiliau a dealltwriaeth o'r newidiadau. Mae hefyd yn rhoi modd cael dadansoddiad sy'n canolbwyntio fwy ar yr effaith, yr heriau a'r cyfleoedd i ysgolion wrth iddynt newid cwricwlwm.

2.17 Defnyddir model newid sefydliadol 7-S McKinsey[16] yn eang gan ymarferwyr, sefydliadau ac academyddion fel ffordd o gefnogi cynllunio strategol. Mae'r model yn annog archwilio saith elfen allweddol ar sefydliad, yn ogystal â'r graddau y maent yn cyd-fynd yn effeithiol â'i gilydd i sicrhau newid ystyrlon a llwyddiannus.

2.18 Mae'r saith elfen allweddol yn cynnwys Strategaeth, Strwythur a Systemau, a ystyrir yn strwythurau 'caled' sy'n cynrychioli adnoddau perthnasol ac ymarfer sefydledig ysgol. Mae Arddull, Staff a Sgiliau yn cynrychioli'r strwythurau ac adnoddau meddalach, dynol. Yn olaf, mae Gwerthoedd Cyffredin yn elfen graidd sy'n cysylltu ac yn dylanwadu ar elfennau eraill y model.

2.19 Mae'r model 7-S hefyd yn seiliedig ar y theori fod angen i bob elfen fod wedi'u halinio â'i gilydd ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Cefnogir cynnydd mewn un maes gan gynnydd mewn un arall, ac yn yr un modd caiff ei lesteirio gan ddiffyg cynnydd mewn un arall. Cam pwysig i gefnogi newid effeithiol yw datblygu strategaeth effeithiol. Mae strategaeth o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r staff a fydd yn ei gweithredu i fod â sgiliau addas, arweinyddiaeth, a gwybodaeth am y strategaeth, a rhaid iddynt alinio â gwerthoedd craidd y strategaeth honno er mwyn iddi fod yn effeithiol. Gall ysgolion felly ddefnyddio'r model eu hunain i helpu i adnabod yr hyn sydd angen ei ailalinio neu ei ddatblygu i gefnogi newid llwyddiannus.

2.20 Yng nghyd-destun yr ymchwil hwn deallir mai ysgolion yw'r sefydliadau sy'n rheoli newid. Yn sgil hynny awgryma'r model nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r saith elfen allweddol wrth i ysgolion fynd ati i newid cwricwlwm. Drwy ateb y cwestiynau hyn, mae'r ymchwil yn cynnig persbectif dadansoddol ar reoli newid mewn ysgolion yng Nghymru ac yn symud yr ymchwil y tu hwnt i wneud dim ond cofnodi gweithgarwch.

2.21 Dyma'r saith elfen allweddol yng nghyd-destun ysgolion Cymru sy'n diwygio eu cwricwlwm:

- **Strategaeth**: Y cynllunio gan y sefydliad i gyflawni ei amcanion. Bydd strategaeth ysgol, sef yn fwy penodol ei Chynllun Gwella Ysgol, wedi cynnwys newid cwricwlwm a chamau clir tuag at weledigaeth Dyfodol Llwyddiannus. Yn bwysicach fyth, bydd strategaeth effeithiol yn alinio ag agweddau eraill, gan sicrhau bod cynlluniau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau, staff, systemau a deunyddiau i symud yr ysgol ymlaen oll wedi'u rhoi ar waith.

[16] Enduring Ideas: The 7-S Framework

- Dyma’r cwestiynau i’w harchwilio yng nghyd-destun yr ymchwil:
    - Pa newidiadau mae’r ysgol wedi’u gwneud i’w strategaeth yng nghyswllt cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus? Cynllun Datblygu Ysgol?
    - Sut bydd y strategaeth newydd/cynllun gwella ysgol yn cyfrannu at gwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus?
- **Strwythur**: Y dyrannu neu ddosbarthu ar adnoddau a’r gweithlu newid cwricwlwm a mynd i’r afael â heriau.

  Dyma’r cwestiynau i’w harchwilio yng nghyd-destun yr ymchwil:
    - A yw’r ysgol wedi gwneud unrhyw newidiadau sefydliadol?
    - Beth yw cyfrifoldebau athrawon/staff wrth addasu i’r cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus?
- **Systemau**: Mae systemau yn golygu’r gweithdrefnau a phrosesau sydd ar waith i gefnogi cydlynu gweithgareddau dyddiol i gefnogi’r newidiadau effeithiol. Yng nghyd-destun newid cwricwlwm, mae systemau da yn cynrychioli’r mecanweithiau i rannu gwybodaeth ar ymarfer ar gyfer cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Yn benodol, mae ‘systemau’ hefyd yn cyfeirio at y systemau cenedlaethol ar gyfer lledaenu a rhannu gwybodaeth berthnasol am y cwricwlwm.

  Dyma’r cwestiynau i’w harchwilio yng nghyd-destun yr ymchwil:
    - A ddefnyddir systemau i gryfhau a chefnogi newidiadau effeithiol sydd wedi, neu wrthi’n, cael eu rhoi ar waith?
    - A oes systemau ar waith i rannu ymarfer sy’n berthnasol i weithredu cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus?
    - A oes ffynonellau cymorth a gwybodaeth ar gyfer staff sy’n bwriadu gwneud newidiadau? A yw’r ffynonellau hyn yn caniatáu risg a methu? Gallai hyn olygu bod rheolwyr yn agored ac yn gefnogol, ac yn ymwybodol o amheuon a phryderon.
    - A oes deunyddiau ac/neu adnoddau wedi’u llunio i gefnogi’r newidiadau i’r addysgu neu unrhyw agweddau eraill?

- **Gwerthoedd Cyffredin**: Mae gwerthoedd yn ganolog i'r model ac yn ymwneud ag agweddau, dealltwriaeth ac ymrwymiad adnoddau dynol y sefydliad. Y gwerthoedd hyn yw'r man cychwyn ar gyfer pob newid. Maent yn ymwneud â'r normau, gwerthoedd a chredoau sy'n sail i broses gyfan y newid cwricwlwm yng nghyd-destun yr ymchwil hwn. Y cwestiynau i'w harchwilio yng nghyd-destun yr ymchwil oedd:
  - A yw staff yn ymwybodol o Dyfodol Llwyddiannus ac o leiaf am ei egwyddorion craidd megis y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r pedwar diben?
  - A yw staff wedi ymrwymo i ddiwygio'r cwricwlwm a rhoi'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar waith yn llwyddiannus? A oes gwrthwynebiad i'r newidiadau – pam / ar ba ffurf?
  - A yw'r diwylliant addysgu yn newid tuag at y ddelfryd a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus?
- **Arddull**: mae arddull yn ymwneud â'r ffordd y mae'r newid yn cael ei reoli a'i arwain.

  Dyma'r cwestiynau i'w harchwilio yng nghyd-destun yr ymchwil:
  - Pwy sy'n arwain y newidiadau a pha mor weithgar yw'r arweinyddiaeth hon wrth arwain, atgyfnerthu ac ymgorffori'r newidiadau?
  - A yw'r arddull yn cael ei werthfawrogi neu ei wrthwynebu gan y staff ehangach?
  - A yw'r cyfathrebu rhwng yr arweinyddiaeth a'r staff yn effeithiol ac yn gefnogol i'r newidiadau?
  - A yw unigolion wedi'u grymuso i fentro gwneud newidiadau?
- **Staff**: Ystyria'r model fod y gweithlu yn adnodd allweddol yn y sefydliad.

  Yn y cyd-destun hwn y cwestiynau i'w harchwilio oedd:
  - A yw'r staff yn ymwybodol o'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus?
  - A oes ganddynt yr awydd i roi'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar waith yn llwyddiannus?

- A yw'r staff yn gwybod am y newidiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud a'u gweithredu er mwyn sicrhau rhoi'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar waith yn llwyddiannus?
- Ar ôl gweithredu newidiadau, a yw staff yn cadw at y ffyrdd newydd o weithio, ac yn osgoi dychwelyd at yr hen arferion a dulliau gweithio?

- **Sgiliau**: Yn olaf, gyda phwyslais ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, dyma'r cwestiynau i'w harchwilio yng nghyd-destun yr ymchwil:
  - A oes gan y staff y sgiliau i ddeall a mynd ati'n llwyddiannus i weithredu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus?
  - A yw'r ysgol wedi nodi unrhyw anghenion sgiliau yn y gweithlu?
  - A oes gan y staff a'r strwythurau neu systemau newydd ddigon o amser i 'fwrw gwreiddiau' ac ymsefydlu eu hunain fel y 'norm' newydd yn dilyn newidiadau?
  - A oes systemau rhannu ymarfer a rhannu gwybodaeth ar waith yn yr ysgol i fynd ati'n gadarnhaol i atgyfnerthu a rhannu'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu?

2.22 Drwy ddefnyddio'r safbwynt rheoli newid wrth ystyried canfyddiadau'r ymchwil, mae'r bennod olaf yn ceisio dadansoddi i ba raddau y mae ysgolion wedi addasu a newid yn llwyddiannus i gyflawni cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae’r bennod hon yn adrodd ar ganfyddiadau’r ymchwil a gynhaliwyd. Cyflwynir y bennod yn ôl y themâu a ddaeth i’r amlwg wrth ddadansoddi’r data: sef gweithgareddau, rhwystrau, galluogwyr, costau, a chynlluniau i’r dyfodol.

3.2 Er mwyn rhoi haen arall o gyfrinachedd i gyfranogwyr, cofnodir pob cyfweliad â phenaethiaid a’r Uwch Dîm Arwain fel ‘uwch staff’.

3.3 Nid pwrpas yr ymchwil oedd mesur faint o ysgolion oedd wedi gwneud gwahanol fathau o newidiadau nac i werthuso’r newidiadau hynny. Fodd bynnag, bydd yr iaith a ddefnyddir yn yr adran hon yn cyfeirio at ‘ambell’ (1-4) ysgol, ‘llawer’ (5-10) o ysgolion, ‘y rhan fwyaf’ (11-15) o ysgolion neu ‘bron pob un’ (16-19) er mwyn awgrymu nifer yr ysgolion sy’n gweithredu gwahanol fathau o newidiadau.

**Gweithgareddau**

3.4 Gellir gosod y gweithgareddau a wnaed gan yr ysgolion ar sbectrwm sy’n amrywio o weithgareddau arwynebol i rai cynhwysfawr sy’n cynnwys ad-drefnu strwythurol. Cynhaliwyd gweithgareddau ‘cyffyrddiad ysgafn’ megis rhannu gwybodaeth ynghylch datblygu cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ymysg staff ym mhob un o’r ysgolion bron. Er hynny, roedd nifer llai o ysgolion wedi mynd ati i gynnal y gweithgareddau mwyaf cynhwysfawr megis ad-drefnu staff, adrannau neu gyfadran a mabwysiadu cyflawn ar gwricwlwm a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus ar gyfer pob blwyddyn yn yr ysgol gyfan.

*Gweithgareddau ‘cyffyrddiad ysgafn’*

3.5 Roedd y rhan fwyaf o’r ysgolion wedi cynnal gweithgareddau a digwyddiadau rhannu gwybodaeth gyda rhai o’r staff. Ran amlaf, roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniadau mewn cyfarfodydd staff a sgyrsiau anffurfiol yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth am ddatblygiadau gan arweinydd cwricwlwm neu aelod o staff sy’n gysylltiedig â’r broses datblygu cwricwlwm.

3.6 Roedd diwrnodau HMS yn arbennig o ddefnyddiol fel cyfleoedd strwythuredig ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrofiadau rhwng uwch staff a staff addysgu, yn ogystal â rhwng staff a oedd heb fod yn rhan o’r gweithgareddau Arloesi.

3.7 Roedd staff a oedd yn gwybod am newidiadau i'r cwricwlwm mewn rhyw ffurf wedi siarad yn hyderus am fabwysiadu'r cwricwlwm newydd yn ystod y blynyddoedd i ddod:

> 'Mae'r ffordd rydyn ni'n ei wneud yn raddol, mae hynny'n gweithio'n dda. Rydyn ni'n cael gwybodaeth dda gan yr ysgol. Erbyn inni gyrraedd 2022 bydd gennym ragor wedi'i gyflwyno, ond rydyn ni bron yn arbenigwyr yn barod.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

3.8 Roedd llawer o ysgolion wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar ddatblygu dealltwriaeth o'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ymysg grwpiau dethol yr aelodau staff hynny a fyddai'n rhan o'r newidiadau mwy cynhwysfawr. Roedd y rhesymau dros gyfyngu ar ei gyflwyno i ychydig o athrawon yn aml yn gysylltiedig â dyhead i 'gael pethau'n iawn' gyda thîm bach yn gyntaf, ac i osgoi codi pryderon neu ofn ymhlith aelodau staff a fyddai â phrofiad ymarferol bychan iawn neu ddim o gwbl o'r cwricwlwm. Ar y llaw arall, mae ambell ysgol hefyd wedi ceisio sicrhau bod yr holl staff yn cael rhywfaint o gysylltiad â'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

3.9 Cefnogodd ambell ysgol eu staff i ymweld ag ysgolion eraill yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ar deithiau i gasglu gwybodaeth.

3.10 Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod wedi buddsoddi mewn hyfforddiant er mwyn datblygu addysgeg ymysg eu staff. Roedd hyfforddiant a datblygiad fel arfer yn gysylltiedig â datblygu dealltwriaeth a dulliau addysgu yn unol â'r 12 egwyddor addysgegol a amlinellir yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus. Ceisiai'r hyfforddiant hefyd ymdrin â materion fel ymreolaeth dysgwyr, addysgu creadigol, a dysgu trwy brofiad. Yn aml, awgrymai uwch staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fod yr her addysgegol yn fwy ar gyfer staff mewn ysgolion uwchradd.

3.11 Mae ambell ysgol wedi datblygu offer mewnol er mwyn asesu dealltwriaeth a gwybodaeth staff am y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ac am ei egwyddorion a sgiliau archwilio.

> 'Roedd yr ysgol wedi creu offer asesu i staff ar ôl i Dyfodol Llwyddiannus ddod allan i weld lle maent mewn perthynas â'r 12 egwyddor addysgegol. Gofynnwyd i'r staff ysgrifennu eu dehongliadau eu hunain o'r egwyddorion hyn ac yna rhoddodd y pennaeth yr hyn a ystyrir i fod y dehongliadau cywir.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg, Arloeswr Arweiniol Dysgu Proffesiynol)

*Cyfrifoldebau Staff*

3.12 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dyrannu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd am gymhwysedd digidol, llythrennedd neu rifedd i aelodau staff penodol. Yn aml, mae'r 'cydlynwyr fframwaith' hyn yn ffocws cymorth wedi'i dargedu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm wrth iddo esblygu (fel y nodwyd uchod).

3.13 Mae'r sylw a roddir i'r newid cwricwlwm wedi cynyddu ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi. Adlewyrchid y cynnydd hwn yn y newidiadau strategol ac i bersonél. Mae bron pob ysgol wedi pennu cyfrifoldeb i aelod o staff am oruchwylio datblygiad y cwricwlwm ar lefel strategol. Mae'r unigolion hyn fel rheol yn aelodau o'r Uwch Dîm Arwain ac o ganlyniad maent mewn sefyllfa dda i gydlynu datblygu'r cwricwlwm â strategaeth a chynllunio ehangach yr ysgol. Roedd eu rolau'n ymwneud â sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i weithgareddau datblygu'r cwricwlwm. Byddai'r unigolion hyn hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y tîm sy'n darparu'r addysgu a'r cynnwys yn yr ystafell ddosbarth, a'r datblygiadau ehangach i'r cwricwlwm sy'n digwydd ar lefel strategol yn yr ysgol neu'n genedlaethol. Er enghraifft, byddai rhai yn rhoi gwybod i staff sy'n darparu'r addysgu a'r cynnwys yn y dosbarth am ddatblygiad y datganiadau 'Beth sy'n Bwysig'. Yn ogystal, gwaith yr unigolion hyn fyddai gwerthuso'r gweithgareddau yn ffurfiol, er nad oedd hyn wedi digwydd adeg yr ymweliadau.

3.14 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a astudiwyd, roedd timau penodol o athrawon dan arweiniad rheolwr canol (Pennaeth Adran neu Bennaeth Maes Dysgu a Phrofiad) wedi cael y gwaith o arwain datblygiad, cynllunio a darparu'r cynnwys a'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y gwaith o ddatblygu a darparu agweddau o ddydd i ddydd y cwricwlwm felly wedi'i ddirprwyo. Mewn rhai ysgolion uwchradd, roedd disgwyl i nifer uwch o athrawon gyfrannu at ddatblygu, cynllunio a darparu'r cynnwys a'r addysgu yn y dosbarth.

3.15 Mae llawer o ysgolion wedi teilwra eu strategaeth recriwtio er mwyn denu'r personél mwyaf addas i swyddi allweddol datblygu cwricwlwm.

3.16 Mae rhai ysgolion uwchradd hefyd wedi secondio neu recriwtio athrawon sydd â phrofiad ysgol gynradd. Nododd penaethiaid yr ysgolion hyn eu bod ar ddeall bod yr ymagwedd addysgegol a awgrymir gan Dyfodol Llwyddiannus yn debyg iawn i un ysgolion cynradd. O ganlyniad, ceisiai'r penaethiaid dynnu ar brofiadau ac arbenigedd athrawon cynradd wrth ddatblygu'r addysgu a'r cwricwlwm mewn ysgol uwchradd.

*Ad-drefnu staff*

3.17 Mae natur yr ad-drefnu yn amrywio rhwng ysgolion, gyda phob ysgol yn ceisio datblygu yn unol â'u strategaeth ar gyfer newid cwricwlwm. Mewn rhai achosion, mae athrawon wedi'u secondio'n llwyddiannus yn fewnol i ddatblygu a darparu gweithgareddau ar gyfer wythnos gyfan. Mae ysgolion eraill wedi sefydlu un Maes Dysgu a Phrofiad, gan gyfuno adrannau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae ambell ysgol uwchradd wedi sefydlu ystod o Feysydd Dysgu a Phrofiad ac wedi ad-drefnu'r strwythur staffio yn sylfaenol i adlewyrchu hyn. Ym mhob achos, roedd llywodraethwyr yn deall ac yn cefnogi'r ad-drefnu, ac ystyriai uwch staff bod addasu a datblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn cyd-fynd â strategaeth yr ysgol.

3.18 Yn benodol, mae ambell ysgol wedi sefydlu un gyfadran Maes Dysgu a Phrofiad sy'n gysylltiedig â'u maes Arloesi. Yn yr achosion hyn, mae'r staff addysgu sy'n gysylltiedig â'r gyfadran MDaPh yn gyfrifol am ddatblygiad parhaus cyflwyno'r cwricwlwm i ddisgyblion.

3.19 Roedd ambell ysgol mewn sefyllfa unigryw i ad-drefnu staff gan eu bod newydd eu sefydlu'n ddiweddar yn sgil cyfuno nifer o ysgolion eraill. Wrth sefydlu'r ysgolion newydd, achubodd y penaethiaid ar y cyfle i lunio strwythur staffio newydd yn unol â chwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Penodwyd penaethiaid cyfadrannau Meysydd Dysgu a Phrofiad ac yna penodi staff i'r cyfadrannau MDaPh perthnasol yn hytrach nag i gyfrifoldebau adrannol.

3.20 Roedd ambell ysgol wedi dechrau ar y broses o ad-drefnu i gyfadrannau MDaPh dros ddegawd yn ôl. Nododd arweinyddiaeth yr ysgol eu bod ar y pryd yn bryderus nad oedd gan ddisgyblion annibyniaeth yn eu dysgu. Roeddent wedi edrych ar y cwricwlwm sgiliau yn Academi John Cabot ym Mryste ac wedi ymweld â'r ysgol. Yna cyflwynwyd SMART ar gyfer CA3, sef cwricwlwm yn seiliedig ar sgiliau lle dysgwyd y disgyblion gan dîm bach o athrawon. Nododd yr arweinyddiaeth eu bod bryd hynny hefyd wedi edrych ar y dysgu gan ddisgyblion mewn gwahanol ffyrdd.

3.21 Yn y cyfamser, mae un Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg wedi datblygu cwricwlwm 'Iechyd a lles' trwy'r ysgol gyfan, gan adeiladu ar waith a wnaed dros y degawd diwethaf. Awgryma hyn fod rhai ysgolion eisoes wedi bod yn mynd i'r un cyfeiriad â Dyfodol Llwyddiannus cyn cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson yn 2015.

3.22 Mae llawer o ysgolion wedi cymryd camau i ddechrau neu gwblhau ad-drefnu'r strwythur staffio. Mae'r ad-drefnu ym mhob achos wedi cynnwys datblygu cyfadrannau Maes Dysgu a Phrofiad i gymryd lle adrannau, neu fel ffordd o annog staff i gydweithio.

3.23 Mae'r cyfadrannau MDaPh sydd wedi'u sefydlu ar y cyfan yn cyd-fynd â'r MDaPh yn Dyfodol Llwyddiannus. Fodd bynnag, mae ambell ysgol wedi gwneud addasiadau bychain. Mae un Ysgol Ganol Ddwyieithog sy'n ysgol Arloesi, er enghraifft, wedi rhannu'r hyn a gynigir yn Dyfodol Llwyddiannus fel 'Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu' yn ddwy gyfadran sy'n cynnwys 'Saesneg' a 'Cymraeg ac Ieithoedd Tramor Modern'.

3.24 Mae'r ad-drefnu o gwmpas Meysydd Dysgu a Phrofiad mewn ysgolion uwchradd, oherwydd bod strwythur adrannau eisoes yno mewn sawl achos, wedi arwain at ad-drefnu a newid strwythurol mwy sylfaenol. Yn yr ysgolion cynradd, fodd bynnag, mae grwpio staff i gyfadrannau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn broses llai datblygedig.

> 'Rydyn ni wedi newid y timau i adlewyrchu'r Maes Dysgu a Phrofiad a byddan nhw [y staff] yn gyfrifol am gynllunio a datblygu'r maes hwnnw. Ond dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn ei olygu yn fanwl eto. Lles yw'r un anoddaf, oni bai eich bod yn arfer delio ag ef, felly rydyn ni ond yn canolbwyntio ar les i ddweud y gwir. Mae'r staff yn gweithio ar draws yr ysgol, ond mae hynny wastad wedi bod yn wir yma fwy neu lai ac eithrio rhaniad y Cyfnod Sylfaen.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi)

3.25 Mae ambell ysgol wedi dechrau cyfeirio at gamau addysgol yn hytrach na Chyfnodau Allweddol. Yn fwyaf nodedig, y rhain yw'r ysgolion canol neu'r ysgolion 'pob oed' (3-16 neu 3-18 oed); fodd bynnag, mae ysgolion cynradd hefyd wedi dechrau cyfeirio at gamau. Mae'r camau sylfaen a chynradd yn arwain at y cam uwchradd, sy'n cynnwys y cam canol a cham CA4.

3.26 Mae ymdrechion bwriadol i dorri'r ffiniau (sy'n aml yn gorfforol) rhwng cyfnodau olaf addysg ysgol gynradd a blynyddoedd cynnar ysgolion uwchradd, gan arwain (yn anfwriadol neu beidio) at 'ysgol ganol' fwy diffiniedig yn nealltwriaeth athrawon. Y cam 'canol' yw blynyddoedd 5 a 6 yr ysgolion cynradd hyd at flynyddoedd 8 a 9 yr ysgolion uwchradd. Mae ambell ysgol ganol wedi dod â blynyddoedd 5 a 6 i mewn i'r adeilad uwchradd ar gyfer gwersi gwyddoniaeth yn y labordy a gwersi ieithoedd modern tramor. Mae ysgolion eraill yn mynd ati'n fwriadol i geisio dod â disgyblion blwyddyn 6

o ysgolion cynradd sy’n bwydo iddynt i gampws yr ysgol uwchradd er mwyn chwalu’r ffiniau rhwng y camau cynradd ac uwchradd.

3.27 Er hynny, mae rhwystr clir a ‘chaled’ yn dal i fod rhwng cyfnodau olaf y cam ‘canol’ sy’n dod yn fwy amlwg (blynyddoedd 8 a 9) a cham CA4 / TGAU. Mae’r diffyg eglurder ynghylch dyfodol TGAU a’i bwysigrwydd mawr iawn i atebolrwydd yr ysgol ac, felly, y staff addysgu wedi golygu bod pob sampl wedi osgoi addasu neu ddiwygio cyfnod CA4. Ar ben hynny, ac fel yr amlinellir yn yr adrannau canlynol, mae’r hyn a dybir sy’n ddiffyg addysgu cynnwys ac addysgu arbenigol yn y meysydd pwnc o dan egwyddorion y cwricwlwm newydd, sy’n canolbwyntio ar sgiliau, yn peri pryderon ymysg llawer o staff. Yn benodol, roedd rhai staff addysgu yn amau pa mor effeithiol fyddai addysgu cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus tan flwyddyn 9, yna neidio i arbenigedd pwnc ar gyfer CA4. Roedd bron pob ysgol uwchradd a samplwyd yn ystyried blwyddyn 9 fel cyfnod pontio i gyfnod CA4 ac nid oedd hynny wedi newid. Yn y bôn, roedd y cyfnod pontio yn golygu dechrau astudiaethau CA4/TGAU.

*Gweithredu’r cwricwlwm a’r cynnwys*

3.28 Mae’r dull cyflwyno cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn amrywio rhwng yr ysgolion hefyd ac, ar y cyfan, yn dibynnu i ba raddau y cafwyd newid strwythurol. Mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi mynd i’r afael â hyn mewn ffyrdd gwahanol. Ymgorffora ysgolion cynradd strwythurau MDaPh yn yr addysgu yn yr ystafell ddosbarth, tra bod ysgolion uwchradd wedi cynnal gweithgareddau sy’n cynnwys datblygu addysgeg, dosbarthiadau ar thema am wythnos gyfan ‘oddi ar yr amserlen’, a’r cwricwlwm cyfan wedi’i gyflwyno i grwpiau blwyddyn drwy’r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn hytrach na’r hen ddull yn ôl pwnc.

3.29 Mae llawer o ysgolion cynradd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ac ymgorffori un Maes Dysgu a Phrofiad i addysgu yn yr ysgol. Mae un Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi, er enghraifft, wedi canolbwyntio’n unig ar ddatblygu’r cwricwlwm iechyd a lles trwy’r holl addysgu yn y cyfnod ar ôl y cyfnod sylfaen.

3.30 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion cynradd wedi ceisio datblygu addysgeg, ac athrawon yn archwilio themâu trwy safbwyntiau’r Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd ystafell ddosbarth, er enghraifft, yn edrych ar y Stiwartiaid trwy astudio’r hanes, ystyried gwerthoedd Baner yr Undeb a gosod tasgau llythrennedd a rhifedd cysylltiedig sy’n galluogi’r disgybl i archwilio agweddau eraill ar gyfnod y Stiwartiaid.

3.31 Mae ambell ysgol uwchradd yn cynllunio ac yn cynnal wythnos ddysgu ar thema benodol i ddisgyblion. Yn yr achosion hyn, mae'r wythnosau a'r misoedd cyn yr wythnos thema, y cyfeirir ati'n aml fel 'wythnos her', yn cynnwys datblygu sgiliau allweddol ar draws pynciau neu Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae staff un Ysgol Uwchradd Ddwyieithog sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm, er enghraifft, yn fwriadol yn cael eu cymysgu ag aelodau staff o feysydd pwnc eraill i addysgu yn ystod yr wythnos thema. Mae'r cyfnod yn dod i ben wrth i'r disgyblion gael eu tynnu o'r amserlen arferol ar gyfer yr wythnos her er mwyn cymhwyso'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod yr wythnosau cyn hynny.

3.32 Mae ambell ysgol uwchradd wedi canolbwyntio ar ddatblygu un gyfadran Maes Dysgu a Phrofiad i addysgu disgyblion blwyddyn 7. Mae un Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm, er enghraifft, wedi cyflwyno 'cyfathrebu a llythrennedd iaith' yn hytrach na Saesneg, Cymraeg ac iaith fodern drwy gydol y flwyddyn.

3.33 Ar y llaw arall, mae ambell ysgol uwchradd wedi gweithredu dull Maes Dysgu a Phrofiad llawn i grwpiau blwyddyn gyfan. Mae ysgolion megis un Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol wedi defnyddio nifer gyfyngedig o staff i wneud yr holl waith addysgu i flwyddyn 7 am flwyddyn gyfan drwy'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn yr ysgol hon, mae addysgu'r MDaPh wedi'i gyfyngu i'r athrawon hynny a'r grŵp blwyddyn, tra bod aelodau eraill y staff yn ehangach ond yn gwybod yn anffurfiol am y gweithgareddau. Mewn ambell ysgol arall, wedyn, mae'r gweithlu cyfan yn ymwybodol o'r addysgu gan fod mwy o rannu ymarfer a phrofiadau wedi digwydd yn yr ysgol.

3.34 Tra bod goruchwyliaeth strategol yn aml yn gyfrifoldeb ar aelod o'r Uwch Dîm Arwain, ym mhob achos mae'r athrawon yn y cyfadrannau MDaPh yn gyfrifol am gynllunio, datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus i'r disgyblion. Gyda chefnogaeth ac arweiniad gan yr aelod o'r Uwch Dîm Arwain, y pedwar diben yn ddieithriad yw'r man cychwyn ar gyfer cynllunio. Mae enghraifft o dempled taflen gynllunio i'w gweld yn Atodiad C, gan ddangos sut y mae'r dibenion yn ganolog i bob gweithgaredd.

3.35 Mae'r cynllunio ym mhob achos bron yn cynnwys elfen o lais y disgyblion a'u blaenoriaeth ac fe'i harweinir gan amlaf gan arweinydd y Gyfadran / adran MDaPh, neu gan aelod o staff dynodedig sy'n arwain yr 'wythnos her'. Mae dysgu drwy MDaPh

ac ‘wythnosau her’ yn golygu cyfnodau cynllunio a datblygu hirach lle gall athrawon gydlynu a dylunio addysgu gyda’i gilydd. Gwelwyd bod rhoi perchnogaeth ar y cwricwlwm yn nwylo’r staff addysgu wedi rhoi hwb mawr i’r athrawon dan sylw ac yn gyffrous iddynt.

> ‘Roedd yr athrawon wedi bod yn rhan o’r cynllunio a’r dylunio testunau, sgiliau a themâu. Mae sicrhau cymaint o amser â phosib yn bwysig i’w galluogi i fynd i’r afael ag ef. Mae wedi rhoi mwy o berchnogaeth iddyn nhw ac mae’r dull yn gweithio ar gyfer blwyddyn 7.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm)

3.36 Mae cynllunio yn aml yn dechrau gyda’r pedwar diben yn ddatganiadau arweiniol ar gyfer gwersi ac mae llawer o ysgolion wedi ceisio ymgorffori’r pedwar diben yn nysgu eu disgyblion y tu hwnt i grwpiau’r Maes Dysgu a Phrofiad. Mewn un Ysgol Uwchradd Ddwyieithog sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm, mae’r pedwar diben yn rhan o lyfrau cyswllt y disgyblion ac maent yn bwynt cyfeirio cyson (ynghyd â sgiliau) wrth adrodd ar gynnydd disgyblion. Ar yr un pryd, mae un ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol wedi ceisio rhoi cyhoeddusrwydd i’r dibenion ymhlith y disgyblion trwy gyfres o ddatganiadau ac enghreifftiau wedi’u harddangos o gwmpas yr ysgol.

**Llun 1: Un o’r pedwar diben wedi’i arddangos mewn un Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol**




3.37 Ym mhob achos yn ymwneud ag ysgol uwchradd, roedd y newidiadau i’r addysgu a’r cynnwys yn yr ystafell ddosbarth wedi’i gyfyngu i flynyddoedd 7 i 9. Mae rhai ysgolion yn bwriadu ehangu’r ddarpariaeth o flwyddyn 7 i flwyddyn 8 (ac o bosib blwyddyn 9) yn

ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae Cyfnod Allweddol 4 yn parhau i fod heb ei gyffwrdd fwy na heb gan y gweithgareddau newid cwricwlwm ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi.

3.38 Yn olaf, roedd pob ysgol yr ymwelwyd â hi wedi cynnwys y newid cwricwlwm a gweithgareddau arfaethedig yn eu Cynllun Gwella Ysgol. Er bod y gweithgareddau i ambell ysgol yn fodd o dreialu a chymryd camau cynnar cyn ymgorffori newidiadau ehangach yn eu cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod, roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi cynllunio sawl cam pellach. Er enghraifft, roedd un Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol, ar ôl mynd â'u blwyddyn 7 drwy eu cwricwlwm newydd a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus, yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth newydd i flynyddoedd 7 ac 8 yn y flwyddyn ganlynol.

3.39 I grynhoi, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i addasu a datblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Amrywia'r gweithgareddau hyn o rannu gwybodaeth a hyfforddiant i bennu cyfrifoldebau strategol allweddol am bynciau fframwaith. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi mynd ati i ad-drefnu'r gweithlu, gan symud yn rhannol neu'n llwyr tuag at fodel Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ar yr un pryd, datblygwyd addysgu ac addysgeg mewn nifer o ysgolion mewn ffordd sy'n ymgorffori agweddau ac egwyddorion craidd Dyfodol Llwyddiannus.

**Cymhellion**

3.40 Mae ystod o ysgogiadau yn sbarduno'r ymgysylltu cychwynnol â'r agenda newid cwricwlwm yn ogystal â chymell parhau i wneud hynny. Mae'r cymhellion hyn yn amrywio o frwdfrydedd at y newidiadau a gynigir i arweinyddiaeth unigolion a chymorth gan gonsortia.

*Yr angen i ddiwygio, a Dyfodol Llwyddiannus fel y cyfeiriad i fynd ymlaen*

3.41 Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a gyfwelwyd, yn enwedig uwch staff, wedi dweud bod y brwdfrydedd a welwyd i gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wedi bod yn gymhelliad amlwg i ymgysylltu â rhaglen Arloesi. At hynny, mynegodd llawer o uwch staff y gred nad oedd y cwricwlwm presennol yn addas i'r pwrpas.

> 'Rwy'n hoffi'r syniad rhychwantol ynddo – gwneud y disgyblion yn barod ar gyfer bywyd go iawn. Mae dull holistig yn dda, yn hytrach nag ymagwedd pwnc-benodol. Mae dulliau thematig yn edrych yn dda hefyd. Mae canolbwyntio mwy ar sgiliau yn


dda.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

'Mae angen newid y cwricwlwm [a symud i ffwrdd] o gwricwlwm rhagnodedig sydd â gormod o gylchau i neidio drwyddynt. Mae'n ddigyswllt – Proffil y Cyfnod Sylfaen, deilliannau, lefelau, TGAU – does dim continwwm. Roedd adroddiad yr OECD wedi edrych ar yr angen am newid oherwydd nad oedd yn addas i'r pwrpas. Addysgeg, hyfforddiant athrawon, HCA, asesu – mae'n cael ei arwain o'r gwaelod ac mae'n wych. Dyma'r ffordd ymlaen.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

3.42 Roedd yr ymatebion i'r holiadur staff yn adlewyrchu'r safbwyntiau hyn ymhlith yr uwch staff, er yn llai felly ymhlith staff addysgu a chymorth. Mae Ffigwr 3.1 isod yn amlinellu'r ymatebion i ddatganiad cyntaf yr holiadur: 'Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol.' Mae'r datganiad yn ceisio cael ymdeimlad o lefel y cydymdeimlad a'r gefnogaeth i'r rhesymeg y tu ôl i newid y cwricwlwm a'r cyfiawnhad dros y newid.

3.43 Awgryma'r canfyddiadau fod cyfran sylweddol (79 y cant) o ymatebwyr yn cytuno i ryw raddau â'r angen i gael newid yn y cwricwlwm. Mae hyn yn awgrymu bod cyfran sylweddol o athrawon yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a'r cyfiawnhad sylfaenol ar gyfer ymdrechion i newid y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw tua un o bob pump o athrawon (21 y cant) yn cyd-fynd â'r ddadl ganolog i newid y cwricwlwm.

**Ffigwr 3.1: Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol (yn gyffredinol)**





N = 414

3.44 Mae Ffigwr 3.2 isod yn dangos yr ymatebion yn ôl rôl y staff. Mae tueddiad clir po uchaf yw'r unigolyn, po gryfaf yw eu cytundeb â'r datganiad canlynol: 'Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol'. Mae 60 y cant o uwch staff (penaethiaid a dirprwyon neu aelodau'r Uwch Dîm Arwain) yn llwyr gytuno â'r angen i ddiwygio'r cwricwlwm, tra bod 96 y cant yn cytuno i ryw raddau. Mewn cyferbyniad, dim ond 29 y cant o'r staff cymorth sy'n cytuno'n llwyr ac mae 58 y cant yn cytuno i ryw raddau.

3.45 O ystyried fod rhan fwyaf yr ysgolion a holwyd yn ysgolion Arloesi, disgwylir y byddai uwch staff yn ymrwymedig i'r ethos ehangach, a hwythau'n fwy tebygol o fod yn rhan o'r cais cychwynnol, dyluniad a rheolaeth weithredol gweithgareddau Arloesi. Roedd rheolwyr canol a staff addysgu – a oedd yn fwy tebygol o beidio â bod yn rhan o weithgareddau Arloesi neu wedi dod yn rhan yn sgil cais neu wahoddiad gan uwch staff – hefyd yn cytuno i ryw raddau (78-88 y cant) fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol. Maent yn llai tebygol o gytuno'n llwyr â'r datganiad nag uwch staff (dim ond 40 y cant a 28 y cant yn y drefn honno), tra bod staff cymorth yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad, gyda dim ond 58 y cant yn cytuno i ryw raddau a dim ond 29 y cant yn cytuno'n llwyr.

**Ffigwr 3.2: Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol (yn ôl rôl)[17]**





N = 414

[17] Dylid nodi, pan fo'r cyfanswm yn dod i fwy na 100%, fod hyn oherwydd defnyddio'r rheol talgrynnu. Defnyddir y rheol hon yn gyson ar draws y prosiect.

3.46 Y pedwerydd datganiad yn yr holiadur oedd: 'Credaf mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm.' Ceisiai'r cwestiwn asesu lefelau'r gefnogaeth i gyfeiriad polisi addysg yng Nghymru a mesur i ba raddau y mae'r gweithlu wedi cydnabod yr angen am werthoedd craidd Dyfodol Llwyddiannus ac i ba raddau y maent wedi ymrwymo i'r gwerthoedd hynny neu wedi'u halinio â nhw. Yn ôl Ffigwr 3.3 er bod rhan fwyaf y staff (56 y cant) yn cytuno mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm, eto awgrymir nad oedd lleiafrif sylweddol (35 y cant) ar y cam hwn wedi'u hargyhoeddi y naill ffordd neu'r llall, tra nad oedd 10 y cant arall yn cytuno â chyfeiriad y polisi addysg. Felly, nid yw 40 y cant o'r athrawon a holwyd wedi'u hargyhoeddi eto mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm.

**Ffigwr 3.3: Credaf mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm**




N = 414

3.47 Fodd bynnag, mae dadansoddi ymatebion yn ôl rôl staff yn rhoi rhywfaint o arlliw i'r canfyddiadau. Mae rolau staff yn cyd-fynd â lefelau'r cytuno â'r datganiad, gyda rolau uwch yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad. Mae 75 y cant o uwch staff yn cytuno i ryw raddau bod Dyfodol Llwyddiannus yn cynrychioli'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm, gyda 63 y cant o reolwyr canol, 52 y cant o staff addysgu a dim ond 47 y cant o staff cymorth addysgu yn cytuno â'r cyfeiriad. Rhaid nodi mai ychydig iawn o anghytundeb a gafwyd â'r datganiad – dim ond 15 y cant o reolwyr canol ac 11 y cant o staff addysgu – a'r unig gategori arwyddocaol arall yw 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.

3.48 Awgryma data ansoddol a meintiol ill dau fod uwch staff yn credu'n gyffredinol fod Dyfodol Llwyddiannus yn mynd i'r cyfeiriad dymunol, ochr yn ochr â chred gadarn bod angen diwygio'r cwricwlwm presennol. Fodd bynnag, nid yw'r farn fod Dyfodol Llwyddiannus yn mynd i'r cyfeiriad dymunol wedi'i rhannu mor eang ymhlith staff addysgu a staff cymorth. Awgryma'r data ansoddol fod staff cymorth a staff addysgu o bosibl yn llai tueddol o gytuno mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r ddogfen a'i chynnwys, yn hytrach nag oherwydd unrhyw anghytuno â'r dull.

*Ysgolion sydd newydd eu sefydlu*

3.49 Ystyrir bod ysgolion sydd newydd eu sefydlu yn 'lechen lân', yn ogystal ag yn gyfle i fynd i'r afael â newid y cwricwlwm gyda llai o rwystrau neu anawsterau sefydledig. Gellir sefydlu strwythurau staffio o'r newydd, er enghraifft, yn hytrach na gorfod ad-drefnu strwythurau presennol. Mae'r 'llechi glân' hyn wedi rhoi cyfleoedd i benaethiaid arwain, ac i'r Consortia Addysg Rhanbarthol gefnogi datblygu strwythurau newydd sy'n gysylltiedig â chyflwyno cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

*Arweinyddiaeth*

3.50 Daeth arweinyddiaeth i'r amlwg fel ffactor ysgogol allweddol i ymgysylltu â'r rhaglen Arloesi yn ogystal â datblygu'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol. Roedd unigolion allweddol a oedd wedi ymwneud yn flaenorol â datblygu cwricwlwm ac â diddordeb blaenorol yn y maes wedi ysgwyddo neu gael swyddi arweinyddiaeth mewn llawer o ysgolion ac wedi gallu ymgeisio i ddod yn Ysgol Arloesi, tra bod gan arweinwyr mewn ysgolion eraill ddiddordeb ac ymrwymiad personol i ddatblygu cwricwlwm ers nifer o flynyddoedd. Yn aml, roedd unigolion mewn swyddi arwain yn y rhan fwyaf o ysgolion yn ymrwymedig neu â phrofiad o faterion penodol neu feysydd sy'n gysylltiedig â datblygu cwricwlwm, megis lles. Roedd yr unigolion hyn yn allweddol wrth ysgogi ymgysylltiad tebyg â'r rhaglen Arloesi ac/neu sicrhau bod yr ysgol yn mynd ati'n gynnar i fabwysiadu agweddau ar gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ac i gymryd camau cychwynnol tuag at ddatblygu ei gynnwys yn yr ysgol ac addasu strwythur yr ysgol.

3.51 Roedd yr uwch arweinyddiaeth yn ffactor pwysig yn y rhan fwyaf o ysgolion mewn perthynas ag ysbrydoli'r gweithlu ehangach ac annog staff i ymwneud â datblygu'r cwricwlwm a gweithgareddau Arloesi. Unigolion allweddol a enwyd ym mhob achos gan y gweithlu ehangach oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r gweithgareddau neu'r

newidiadau oedd aelodau'r Uwch Dîm Arwain y rhoddwyd cyfrifoldeb a goruchwyliaeth strategol iddynt.

3.52 Roedd rheolaeth ar y lefel ganol hefyd wedi bod yn allweddol wrth gymell ymgysylltiad staff yn ystod y broses o ddatblygu a chyflwyno agweddau o ddydd i ddydd ar ddiwygio'r cwricwlwm. Arweiniai penaethiaid adrannau (neu Feysydd Dysgu a Phrofiad) y gwaith o ddydd i ddydd i gynllunio a gweithredu gweithgareddau cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, gyda chymorth yn unig mewn rhai achosion gan uwch aelod o staff.

*Cefnogaeth gan y consortia*

3.53 Yn olaf, roedd y gefnogaeth gan y consortia ar ôl i ysgolion ddod yn ysgolion Arloesi neu ddechrau mynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm wedi codi i fod yn ffactor ysgogol pwysig trwy gydol y broses, yn enwedig gan yr uwch staff.

> 'Cawsom lawer [o wybodaeth] drwy'r consortiwm, a oedd yn rhagweithiol iawn. Roedd cyfarfodydd clwstwr hefyd yn ddefnyddiol i rannu gwybodaeth ac o ganlyniad i hynny a ninnau'n ysgol ragorol, gwnaethom gais i fod yn ysgol Arloesi y fargen newydd. [18] Roedd yr holl wybodaeth roeddem ei hangen ar y pryd wedi'i rhoi. Ers hynny, mae wedi bod yn daith. Pan fyddwch yn gwneud rhywbeth newydd, mae wedi'i adael fwy nag heb yn nwylo'r athrawon a'r penaethiaid, ond mae'r consortiwm rhanbarthol wedi bod yn dda gyda'u cefnogaeth.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

**Galluogwyr**

3.54 Daeth sawl ffactor i'r amlwg fel galluogwyr pwysig o ran newid y cwricwlwm. Roedd ran helaethaf y ffactorau galluogi yn gysylltiedig â'r gweithlu.

3.55 Ledled yr ysgolion, ffactor galluogi allweddol oedd y brwdfrydedd tuag at gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus a'r datganiadau cysylltiedig a wnaed drwy'r cyfryngau neu mewn digwyddiadau addysg. Roedd athrawon neu staff perthnasol neu'r rheiny a oedd wedi cymryd rhan yn 'Y Sgwrs Fawr' yn enwedig i'w gweld wedi ymgysylltu'n frwd â'r prosiect newid cwricwlwm yn ehangach. Awgryma hyn fod staff yn gyffredinol yn gydnaws â gwerthoedd craidd Dyfodol Llwyddiannus.

[18] Bellach yn cael eu galw'n ffurfiol yn Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol

3.56 Cododd arweinyddiaeth hefyd i fod yn ffactor allweddol o ran galluogi. Gellid disgwyl hyn, o ystyried natur y sampl; mae ysgolion arloesi, oherwydd eu natur, yn cynnwys staff â gweledigaeth, tra bod ysgolion partner yn cynnwys staff sydd wedi mynd ati ar eu liwt eu hunain i newid cwricwlwm. Mae’r meddylfryd blaengar a chadarnhaol yn cyfrannu at ddiwylliant arbrofol a diwylliant cymryd risg mewn llawer o ysgolion sydd fel petai’n nodweddiadol o’r ysgolion sydd wedi gwneud newidiadau sylweddol neu wedi gwneud cais am statws Arloeswr. ‘Mae’r pennaeth yn arwain y newid — ei weledigaeth e ydyw. Mae e’n ei wthio ymlaen ond mae’r arweinyddiaeth wedi’i ddosbarthu ac yn organig.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Arbennig sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm)

3.57 Tybid yn eang ymhlith yr athrawon yn y grwpiau ffocws fod y cwricwlwm sydd wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, er yn heriol i’w gyflwyno, er hynny yn fwy boddhaus i athrawon.

> ‘Rwy’n ei hoffi. Mae wedi annog athrawon i addysgu y tu allan i’r bocs. Rydyn ni wedi gallu dangos creadigrwydd yn llawer mwy, yn enwedig yn CA2, nid yn y Cyfnod Sylfaen yn unig. Rydyn ni wedi trafod sut y mae ysgolion ledled Cymru yn wahanol ac mae hyn yn rhoi modd i ni ei wneud yn bersonol i ni.’ (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

3.58 Ystyriai athrawon fod sawl agwedd ar y ddarpariaeth yn fwy boddhaol a gwerth chweil. Mewn un ysgol uwchradd cyfrwng-Saesneg, credwyd bod cwricwlwm CA3 yn llawer mwy addas i’r pwrpas – cydweithiai’r staff a’r cyfan ohonynt yn cymryd rhan yn y broses. Roedd wedi creu mwy o gyfle i weithio’n drawsgwricwlaidd trwy bwyslais ar sgiliau. Gwelodd yr ysgol ddefnydd ar sgiliau Dylunio Technoleg mewn gwersi gwyddoniaeth a defnyddio sgiliau mathemateg a rhifedd ymhob pwnc.

3.59 Mewn ysgolion eraill megis un Ysgol Arbennig sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm, roedd y cydgynllunio a chydgymedroli a ddatblygwyd yn newid y diwylliant ehangach o fewn yr ysgol a’r gweithlu. Roedd arbenigwyr pwnc yn cefnogi eraill nad oeddynt yn arbenigwyr: ‘Mae staff bellach yn fwy hyderus ac yn rhoi’r dulliau hyn ar waith yn yr ystafelloedd dosbarth.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg ac Ysgol Bartner)

3.60 Roedd yr effaith ar frwdfrydedd ac ymgysylltiad athrawon a disgyblion yn brofiad y sylwyd arno yn arbennig, a hynny wedyn wedi sbarduno ymgysylltiad pellach ac alinio â’r dull a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus:

‘Rydym eisoes yn gweld effaith gadarnhaol ar eu canlyniadau [y disgyblion], hefyd ar eu hagweddau a’u cymhelliant a’u hymgysylltiad. Mae hynny’n wir am y disgyblion a’r staff. Mae’r staff yn fwy cyffrous ynghylch addysgu gwersi. Nid yw sgiliau yn newid ar draws yr adrannau, ond mae’r ffordd y maent yn cael eu haddysgu – mae hynny’n fwy cyffrous. Mae’r disgyblion yn bwydo ar hynny.’ (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm)

3.61 Roedd profiadau cadarnhaol athrawon a oedd wedi ymwneud ag addysgu cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wedi annog ymgysylltu pellach, gan arwain at ryw fath o ‘gylch rhinweddol’. Er enghraifft, roedd effaith gadarnhaol yr addysgu a’r cynnwys ym marn rhai athrawon wedi arwain atynt yn rhannu eu profiadau ac yn hyrwyddo potensial eu harferion a’u dulliau ymhlith aelodau eraill staff yr ysgol.

3.62 At hynny, roedd y profiad o addysgu’r cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wedi helpu i leddfu pryderon ynghylch agweddau anghyfarwydd y cwricwlwm ac wedi codi hyder yn y gallu i fynd i’r afael â’r heriau hynny pan ddônt yn hysbys.

3.63 O ran cyflwyno cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus o ddydd i ddydd trwy strwythurau neu addysgu diwygiedig, mae’r cynllunio cydweithredol yn dod ag athrawon at ei gilydd. Wrth gydweithio a chydgynllunio’r addysgu, soniodd athrawon am oresgyn petruster a phryderon ynghylch y newidiadau y mae angen eu gweithredu. ‘Y cam cynllunio yw’r maes allweddol – o gael hwnnw’n iawn gallwn ni fod yn hyderus ein bod yn ymgorffori’r sgiliau.’ (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

3.64 Roedd y rhyddid a’r gefnogaeth i ysgolion Arloesi arbrofi a chyd-gynhyrchu’r cwricwlwm newydd ynddo’i hun yn ffactor galluogi pwysig. ‘Mae datganiad Estyn na fyddent yn cosbi ysgolion sy’n arbrofi gyda’r cwricwlwm newydd i’w groesawu. Mae hyn wedi ein hannog i fwrw ymlaen.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd ddwyieithog sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm)

3.65 Mewn rhai ysgolion uwchradd, roedd athrawon ysgol gynradd wedi’u secondio ar gyfer gweithgarwch Arloesi neu wedi’u penodi gyda’r nod penodol o gefnogi datblygiad addysgegol a datblygiad addysgu yn unol â chwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd profiad a sgiliau’r athrawon cynradd yn werthfawr iawn o ran

helpu a galluogi athrawon uwchradd i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm yn seiliedig ar thema a sgiliau.

> ‘Rhowch 2 neu 3 o athrawon cynradd i mi ac fe allwn ni newid cryn lawer. Mae gan athrawon cynradd wir fewnbwn i’w roi. Mae hyblygrwydd yn y gweithlu yn allweddol. Maent wedi arfer addysgu fel hyn – maent yn arbenigol. Angen hyblygrwydd i recriwtio o’r cynradd.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

3.66 Fodd bynnag, mynegodd un pennaeth amheuaeth ynghylch parodrwydd ysgolion eraill neu hyd yn oed ymwybyddiaeth o bosibilrwydd cyfreithiol penodi athrawon ysgolion cynradd i swyddi mewn ysgolion uwchradd. ‘Roedd yn rhaid i mi ofyn o gwmpas. Dydw i ddim yn siŵr faint o ysgolion eraill, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi dechrau eto ac nad ydynt yn rhan o’r rhaglen Arloesi, sy’n gwybod ei bod hi’n bosib secondio athro neu athrawes ysgol gynradd.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

3.67 O ran ffactorau mwy strwythurol, nodwyd bod diwrnodau HMS a sesiynau mewnol i rannu gwybodaeth am y cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn ffactorau galluogi allweddol yn y rhan fwyaf o ysgolion, a’r digwyddiadau hynny wedi annog ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud â newid y cwricwlwm ac annog diddordeb ynddynt.

3.68 Yn olaf, ac yn fwyaf nodedig, roedd cyllid Arloesi ei hun wedi galluogi pob ysgol oedd yn gysylltiedig â’r rhaglen i fuddsoddi yn natblygiad addysgu cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

3.69 I grynhoi, mae brwdfrydedd ac arweinyddiaeth y gweithlu yn ffactorau ysgogi allweddol ond hefyd yn ffactorau galluogi. Ystyrir bod profiadau cadarnhaol a’r rhyddid i arbrofi (a’r rhyddid i fethu) yn ffactorau galluogi pellach. Ar yr un pryd, mae arbenigedd cynradd mewn ysgolion uwchradd yn cyfoethogi sgiliau’r gweithlu ac yn gweithredu fel galluogydd, gan gefnogi cynnig dulliau addysgu sy’n gymharol newydd i ysgolion uwchradd.

**Rhwystrau a phryderon**

3.70 Codwyd amrywiaeth o rwystrau a phryderon posibl yn ystod cyfweliadau ag aelodau staff. Mae’r pryderon a’r rhwystrau, yn deillio o ddata’r cyfweliadau, yn seiliedig ar argraffiadau’r athrawon a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil hwn. O ganlyniad, ni fydd y

rhwystrau a'r pryderon hyn o anghenraid yn adlewyrchu gwirionedd y broses newid cwricwlwm ledled Cymru. Roedd y pryder mwyaf cyffredin, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn gysylltiedig ag asesu a sut i ddangos cyrhaeddiad o dan y cwricwlwm newydd. Gellir rhannu'r rhwystrau eraill yn rhai sy'n deillio o brofiad ac yn rhai sy'n codi o ansicrwydd neu bryder ynghylch datblygiad y cwricwlwm yn y dyfodol.

*Asesu*

3.71 Y pryder amlwg ym mron pob ysgol oedd yr ansicrwydd a'r ofn ynghylch asesu o dan gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd y diffyg eglurder ynghylch y ffordd y câi perfformiad ei asesu wedi arwain, ym marn uwch staff a staff addysgu, at hepgor darn allweddol o'r cwricwlwm.

> 'Asesu yw'r prif beth i mi. Mae datganiadau "Beth sy'n Bwysig" yno ac rydym yn rhoi cnawd ar yr esgyrn. Ond y cam pwysig nesaf yw asesu, a sut y bydd ysgolion yn cael eu beirniadu. Bydd ysgolion yn "chwarae'r gêm" – byddant yn gweithio tuag at y dyfarniadau a'r meini prawf gwerthuso. Yr asesu fydd yn allweddol i'w lwyddiant neu ei fethiant.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

> 'Rydyn ni'n poeni am yr asesu.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

3.72 Yn gysylltiedig â hyn, roedd ansicrwydd ynghylch sut y gellid tystiolaethu llwyddiannau ac effaith addysgu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

> 'Gwybodaeth ymarferol ynghylch ei roi ar waith – mae'n ffordd ddysgu fwy llithrig ond byddant yn dal am gael rhif mewn blwch a chanlyniadau. Byddant yn dal i eisiau cynnyrch terfynol. Beth fydd hwnnw a sut ydyn ni'n ei dystiolaethu?' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

*Ansicrwydd ynghylch rolau*


3.73 Er bod penaethiaid ac uwch staff wedi sôn am gael gwybodaeth dda ar y cyfan gan y llywodraeth a'r consortia, roedd staff addysgu yn llai hyderus ynghylch yr hyn y disgwylid ohonynt a'u rôl o dan gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus gan gael eu gadael i fynd i chwilio am wybodaeth eu hunain mewn rhai achosion. O ganlyniad, roedd staff addysgu yn fwy tebygol o fod yn llai gwybodus am nodau a manylion y newid cwricwlwm, yn ogystal ag am y datblygiadau diweddaraf.

3.74 Roedd staff addysgu yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddent yn cael gwybodaeth drwy reolaeth yr ysgol ei hun yn hytrach na chwilio am wybodaeth eu hunain: ‘Rwyf wedi ei gweld [dogfen Dyfodol Llwyddiannus], ond alla’ i ddim dweud fy mod i wedi’i darllen yn drylwyr. Rydyn ni’n cael y pethau pwysig drwy’r ysgol... Mae ’na gryn dipyn o ddogfennaeth. A oes fersiwn gryno ohoni? Achos dydych chi ddim bob amser yn gallu pori cannoedd o dudalennau.’ (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm).

3.75 Mae data o’r holiadur yn cefnogi’r canfyddiadau ansoddol hyn, yn ogystal â’r syniad bod staff addysgu a staff cymorth yn llai gwybodus am eu rolau o dan gwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae’r data a gyflwynir yn Ffigwr 3.4 yn ddata ar gyfer yr holl staff, ac yn awgrymu darlun cymysg lle mae hanner (52 y cant) o staff yn anghytuno â’r datganiad ‘Nid wyf yn gwybod beth fydd gofynion fy rôl o dan y cwricwlwm newydd’.

3.76 Cytunai tua chwarter (28 y cant) i ryw raddau nad ydynt yn gwybod beth fydd ei angen gan eu rôl. Nid oedd pumed arall (20 y cant) yn cytuno nac yn anghytuno â’r datganiad, gan awgrymu rhywfaint o ansicrwydd. Dengys y data nad yw tua hanner yr ymatebwyr (48 y cant), a’r rhan fwyaf ohonynt mewn ysgolion Arloesi, yn gallu dweud eu bod yn gwybod beth fydd gofynion eu rôl o dan gwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.


**Ffigwr 3.4: Nid wyf yn gwybod beth fydd gofynion fy rôl o dan y cwricwlwm newydd**




N = 414

3.77 Mae dadansoddiad pellach o'r data swyddi, fodd bynnag, fel yr archwilir yn Ffigwr 3.5, yn awgrymu cydberthynas rhwng swydd uwch ac anghytuno â'r datganiad. Er bod 74 y cant o uwch staff yn anghytuno â'r datganiad, sy'n awgrymu rhywfaint o hyder ynghylch y gofynion ar eu rôl, dim ond 48 y cant o'r staff addysgu a 23 y cant o staff cymorth sydd wedi rhoi ateb tebyg. At hynny, mae rhwng 25-42 y cant neu fwy o staff hyd at y rôl rheoli canol, ac yn cynnwys y rheiny, yn awgrymu nad ydynt i ryw raddau yn gwybod beth fydd yn ofynnol yn eu rôl o dan gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

**Ffigwr 3.5: Nid wyf yn gwybod beth fydd gofynion fy rôl o dan y cwricwlwm newydd (rôl staff)**




N = 414

*Dau gwricwlwm*

3.78 O ran rhwystrau a brofwyd yn ystod gweithgareddau Arloesi, rhwystr allweddol oedd yr angen i gadw at y cwricwlwm presennol ar yr un pryd â cheisio cynllunio, datblygu a chyflwyno cynnwys ac addysgu sy'n berthnasol i gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Pryder penodol mewn ysgolion, yn enwedig gyda CA2 a CA3, oedd yr angen i asesu disgyblion a chynhyrchu data yn unol â lefelau a'r cwricwlwm presennol ar yr un pryd â symud tuag at asesu pwyntiau cynnydd fel yr amlinellir yn y model Dyfodol Llwyddiannus.

> 'Asesu sydd wedi bod yn fwyaf heriol. Bydd y [consortia] yn dal eisiau lefel ar gyfer y disgyblion a data am y lefelau hynny. [Yn unol â'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus] dydyn ni ddim eisiau dyfarnu lefelau. Rydyn ni ond yn mynd i roi canran o'r sgiliau maen nhw wedi'u cyflawni. Ond ar ddiwedd blwyddyn 8,

byddan nhw'n dal yn mynd yn ôl i gael lefel. Efallai fod Llywodraeth Cymru eisiau cael gwared ar lefelau, ond bydd EAS yn dal eisiau lefelau.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

'Mae'r ddogfen gyfreithiol ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol yn ein harafu. Rydym yn rhwym i'r hen fframweithiau – yn ceisio symud ymlaen ond mae'n ein dal yn ôl.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg ac Ysgol Bartner)

'Mae'r ffaith eu bod yn dal yn gorfod addysgu ar gyfer yr... asesiad[au] yn rhwystr oherwydd ei fod yn dylanwadu ar y math o brosiectau y maent yn eu cynllunio. Mae'r ysgol yn symud CA2 tuag at egwyddorion addysgegol DLI yn seiliedig ar addysgu holistig ond mae'r profion cenedlaethol yn gwrthdaro.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi).

*Cyfnod Allweddol 4*

3.79 Fel y crybwyllwyd eisoes, er y gwnaed ymdrechion i ddatblygu 'camau' (sylfaen – cynradd – canol – CA4), roedd y continwwm rhwng y cam canol (sef cyfnodau CA2-CA3 yn y cwricwlwm cyfredol) a CA4 yn anoddach i'w ddatblygu. Roedd rhwystr 'caled' rhwng y cam canol a CA4 ym mhob ysgol uwchradd oherwydd amharodrwydd ysgolion i ddiwygio neu ddatblygu unrhyw agwedd ar brofiad disgyblion a allai gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad TGAU.

*Y Ddarpariaeth Gymraeg*

3.80 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, pryder cyffredin oedd yr angen tebygol i adolygu a gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mynegai penaethiaid yn fwy na neb bryder ynghylch gallu'r gweithlu i allu cynnig gwell darpariaeth yn Gymraeg.

'Bydd dwyieithrwydd a darpariaeth drwy'r Gymraeg yn her fawr os nad oes gennym y staff.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

*Fframwaith Cymhwysedd Digidol*

3.81 Codai'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol[19] i fod yn her i sawl ysgol. Mae'r angen i hyfforddi aelodau'r staff yn debygol o fod yn rhwystr. Soniodd aelodau'r staff am yr angen i uwchsgilio a meithrin hyder.

---

[19] Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i lwyddo mewn byd cynyddol ddigidol ac fe'i cyhoeddwyd yn 2016.

*Iaith dogfennaeth y cwricwlwm*

3.82 Pryder allweddol a ystyriwyd yn rhwystr posibl mewn sawl ysgol cyfrwng-Cymraeg oedd dogfennaeth y cwricwlwm ei hun. Honnai sawl aelod o staff a oedd yn ymwneud â grwpiau datblygu MDaPh mai Saesneg oedd iaith datblygiad y cwricwlwm. Er y derbynnid hyn i gryn raddau oherwydd ymarferoldeb y peth, roedd pryder mawr ynghylch y cyfieithu ac ystyr terfynol y ddogfennaeth a'i gyfathrebu yn y pen draw i ysgolion ar ôl ei baratoi, a allai fod â goblygiadau i'w hysgol yn nes ymlaen wrth fabwysiadu'r newid cwricwlwm.

> 'Y broblem fwyaf yw bod popeth wedi bod trwy gyfrwng y Saesneg. Rydw i felly yn meddwl am y cwricwlwm yn Saesneg. Maen nhw'n dechrau cyfieithu pethau nawr, ond maen nhw'n colli'r ystyr. Rydym yn colli'r iaith idiomatig ac mae'n rhwystredig iawn. Gan fod hwn yn gwricwlwm i Gymru, rhaid inni ystyried y Gymraeg yn gyfartal. Ar hyn o bryd, mae'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddatblygu gan gyfieithydd, nid gweithiwr addysg proffesiynol. Nid yw'r cyfieithiad yn iawn o ran ei ystyr.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd ddwyieithog sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

*Rhwystrau a phryderon eraill*

3.83 Roedd consensws eang, fodd bynnag, fod cyflwyno cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus i'w weld yn fwy heriol i ysgolion uwchradd nag i ysgolion cynradd oherwydd bod angen mwy o newid ac oherwydd heriau addysgegol ar staff. 'Bydd yn haws mewn ysgolion cynradd o'i gymharu ag ysgolion uwchradd oherwydd y disgwyliadau o ran targedau pwnc-benodol.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Ganol ddwyieithog sy'n Ysgol Arloesi)

3.84 Roedd yna hefyd leiafrif o athrawon (a oedd yn bresennol yn y grwpiau ffocws ac yr oedd uwch staff wedi cyfeirio atynt mewn cyfweliadau) a oedd yn dal yn amheus o gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Cefnogir hyn hefyd gan ddata o'r holiadur (a amlinellwyd yn Ffigwr 3.3 uchod) sy'n dangos nad yw tua 10 y cant o'r ymatebwyr yn gweld Dyfodol Llwyddiannus fel y cyfeiriad dymunol i fynd iddo.

> 'Rwyf wedi edrych ar y datganiadau Beth sy'n Bwysig ac mewn rhai ffyrdd roedd wedi pylu fy mrwdfrydedd. Roedd y datganiadau Beth sy'n Bwysig yn swnio fel petaent yn ailbobi datganiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Os ydw i'n gwneud yr un peth ymhen pum mlynedd, yna beth oedd y pwynt.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

3.85 Dywedodd lleiafrif o athrawon a rhai uwch staff ei bod yn well ganddynt gwricwlwm mwy gorchmynnol. Roedd sicrwydd lefelau, yn eu llygaid hwy, yn cael ei ddisodli gan gwricwlwm mwy agored ac ansicr.

> 'Arferid cyhoeddi lefelau Cyfnod Allweddol ac fe wyddech beth oedd y lefelau, beth oedd yn rhaid i ni ei wneud a beth y gallem ei wneud. Roeddech yn cynllunio ar gyfer hynny ac roeddech chi'n gwybod. Gyda'r rhyddid hwn [sef cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus], rhaid cael profion a mesur cynnydd. Beth yw lefelau Cyfnod Allweddol 3 nawr? Dydyn ni ddim hyd yn oed yn gwybod a ydynt yn cael eu dileu'n raddol ai peidio. Sut ydyn ni i fod i fesur cynnydd? Rwy'n hoffi strwythur y Cwricwlwm Cenedlaethol. Er bod Cyfnod Allweddol 4 wedi cael ei newid, ac nad ydych efallai yn cytuno ag ef, eto roeddech chi'n gwybod beth oedd yn rhaid i chi ei ddysgu.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm).

3.86 Soniodd aelodau uwch y staff a staff addysgu hefyd am leiafrif o athrawon pwnc traddodiadol mewn ysgolion uwchradd sy'n cael y newidiadau yn eu hysgol yn her. Adleisiodd yr holiadur i staff y canfyddiadau hyn, gan awgrymu hefyd, er bod mwyafrif y staff yn cyd-fynd â'r newidiadau ac yn gefnogol, roedd lleiafrif yn dal yn eu gwrthwynebu. Roedd pryder penodol a godai sawl gwaith yn ystod y cyfweliadau yn ymwneud ag addysgu cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau tan flwyddyn 8 neu 9, ac yna symud yn sydyn i fedru addysgu digon o gynnwys ac arbenigedd ar gyfer arholiadau TGAU a CA4.

3.87 Mater cysylltiedig gan staff addysgu mewn ysgolion uwchradd oedd rhywfaint o bryder ynghylch addysgu y tu hwnt i gwmpas eu harbenigedd pwnc o fewn Maes Dysgu a Phrofiad: 'Rwy'n arbenigo ar gerddoriaeth – bydd yn rhaid i rywun ddangos i mi sut i addysgu celf a drama' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol).

3.88 Daeth rhwystr arall i'r amlwg ynghylch argraffiadau rhieni o'r newidiadau, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, roedd rhieni yn pryderu am symud i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

> 'Beth sydd wedi digwydd i hanes [bydden nhw'n gofyn]? Dydi'r ffaith nad ydyn ni'n ei alw yn hanes yn y gwersi ddim yn golygu nad yw'n cael ei addysgu.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm).

‘Mewn cyferbyniad – does gan y dyn a’r fenyw ar y stryd ddim syniad. Byddant wedi’u drysu’n lân gan y peth. Mae’n benbleth i’r rhan fwyaf o’r cyngor ac maent yn argyhoeddedig mai gimig yw’r cyfan. Mae eu ffocws ar Safon Uwch ac nid ydynt yn gweld sut mae’n berthnasol.’ (Cyfweliad â Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm).

**Costau**

3.89 Mae costau wedi bod ar ysgolion sydd ynghlwm â gweithgareddau arloesi a newid strwythurol i addasu a datblygu cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Gellir rhannu’r costau yn gostau hyfforddi, cost rhyddhau ac wedyn cyflenwi staff, a chostau gweithgareddau.

3.90 Roedd costau wedi’u cynnwys i raddau helaeth yng Nghynlluniau Gwella Ysgolion; fodd bynnag, awgrymodd uwch staff a llywodraethwyr mewn sawl ysgol Arloesi a samplwyd y byddai’n anodd iawn cysegru’r un lefel o amser staff i ddatblygu’r cwricwlwm yn yr ysgol heb y cyllid Arloesi.

‘Heb gyllid Arloesi, fyddem ni ddim yn gallu rhyddhau ein hathrawon i hwyluso eraill y tu allan i’r ysgol. Ni fyddai datblygiad y cwricwlwm yn digwydd. Byddai hynny’n cael effaith ar staff a datblygiad y cwricwlwm. Ond byddai’n digwydd yn ystod ein hamser ni. Byddai diwrnodau HMS a chyfarfodydd staff yn cael eu defnyddio yn lle hynny.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi)

3.91 Credwyd yn eang fod Hyfforddiant a Dysgu Proffesiynol yn cynnwys cyfran helaeth o wariant yr ysgolion eu hunain a gwariant Arloesi, tra bod ysgolion partner hefyd yn ei weld yn wariant allweddol. Yn gysylltiedig agos â rhyddhau athrawon ar gyfer hyfforddi oedd rhyddhau athrawon i fynd ar ymweliadau arsylwi i ysgolion eraill. Gan fod datblygu addysgeg yn agwedd allweddol ar newid cwricwlwm, cost hyfforddi a chyflenwi athrawon wrth hyfforddi neu ddatblygu addysgu oedd y prif wariant. Soniodd nifer o benaethiaid yn ffafriol ynghylch pa mor berthnasol oedd y cynnig Dysgu Proffesiynol gan y consortia yn benodol.

3.92 Daeth yn amlwg mai ffactor cyffredin ar gyfer paratoi at weithredu oedd yr angen i neilltuo digon o amser cynllunio a dylunio i’r athrawon perthnasol. Credid yn eang, yn enwedig yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, fod cynllunio’r cynnwys a’r ddarpariaeth i’r dosbarth yn mynd â mwy o amser nag yn achos y cwricwlwm presennol. Roedd costau cyflenwi’r athrawon iddynt gynllunio a datblygu eu haddysgu a’u cynlluniau gwaith yn ddigonol yn wariant allweddol i sawl ysgol Arloesi. Roedd goblygiadau

costau i un Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg er enghraifft, wedi cynnwys talu am amser athrawon i baratoi a chynllunio eu cwricwlwm i gyd-fynd â Dyfodol Llwyddiannus, gyda Phennaeth Daearyddiaeth yn arwain yr ymgysylltu â'r model ysgol Arloesi, a oedd wedi golygu gwneud amser ar eu hamserlen. Mae Arweinwyr Newid, wedyn, wedi cael diwrnod i ffwrdd pob pythefnos i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae athrawon sy'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm ac addysgu yn cael diwrnod i ffwrdd bob pythefnos hefyd.

3.93 Roedd 'wythnosau Her' a'r wythnosau thema 'oddi ar yr amserlen' wedi golygu cryn gostau. Nododd un ysgol uwchradd cyfrwng-Saesneg ac Ysgol Bartner ei bod yn amcangyfrif bod y gost oddeutu £10,000 y flwyddyn i gynnal 'Wythnosau Dyfodol', gan ei fod yn fwy dwys o ran adnoddau oherwydd yr ymweliadau oddi ar y safle a'r amser cynllunio ychwanegol sydd ei angen. Mae'r defnydd o gyfleusterau awyr agored a diwrnodau oddi ar y safle yn ystod yr wythnosau hefyd yn golygu costau. Deuai'r costau hyn bob tro o dan gyllid grant Arloesi.

3.94 Mae rhai ysgolion wedi buddsoddi mewn aelodau staff i ehangu capasiti sgiliau eu gweithlu neu i ddod â phrofiad arbenigol i gefnogi newid cwricwlwm. Mae un Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol wedi secondio athro ysgol gynradd i gefnogi'r grŵp o athrawon y rhoddwyd y cyfrifoldeb arnynt am addysgu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ym mlwyddyn 7.

3.95 Roedd ad-drefnu mwy cynhwysfawr ar staff hefyd wedi digwydd mewn rhai ysgolion, gyda rhagolygon o gael arbedion yn yr hirdymor mewn rhai achosion o ganlyniad i gwtogi ar nifer y penaethiaid adrannau i lai o benaethiaid cyfadrannau Maes Dysgu a Phrofiad. Manteisiodd rhai ysgolion newydd eu had-drefnu drwy recriwtio ar gyfer strwythur staffio ar ôl newid y cwricwlwm. Er na wnaed unrhyw arbedion yn dechnegol oherwydd bod yr ysgolion newydd gael eu had-drefnu yn ddiweddar, credwyd bod y costau staffio hirdymor yn is na phetai'r ysgol wedi sefydlu penaethiaid adrannol ar gyfer pob pwnc.

3.96 Mae ysgolion uwchradd eraill hefyd wedi ad-drefnu eu gweithlu, gan sefydlu chwe chyfadran Maes Dysgu a Phrofiad gyda phenaethiaid MDaPh cysylltiedig yn cymryd lle penaethiaid adrannau a'r bwrdd pynciau. Manteisiodd un ysgol ar ad-drefnu addysg yn y rhanbarth, ac mae'r ysgol hon a dwy arall o'r farn fod eu costau wedi gostwng yn gyfrannol yn y tymor hir, eto oherwydd y gostyngiad yn nifer y penaethiaid adran. Fodd bynnag, dywedodd un Ysgol Uwchradd cyfrwng-Cymraeg fod eu costau staffio yn

uwch yn dilyn yr ad-drefnu oherwydd cyflogi penaethiaid MDaPh uwchben y penaethiaid adran presennol.

3.97 Cost arall i rai ysgolion yw adnoddau a chaledwedd. Mae rhai wedi ceisio buddsoddi mewn caledwedd. Roedd un Ysgol Arbennig sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm wedi partneru â chwmni technoleg i sefydlu canolfan rhith-wirionedd (VR), roedd Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Bartner wedi buddsoddi £20,000 mewn gliniaduron i ddisgyblion, tra bod Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol wedi buddsoddi mewn Chromebooks ar gyfer ei disgyblion blwyddyn 7. Roedd y buddsoddi mewn caledwedd wedi darparu adnoddau i gefnogi ac ategu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ar adegau, fodd bynnag, roedd y buddsoddiad hwn yn fwy na'r hyn a ddyrannwyd yn benodol i newid cwricwlwm trwy'r cyllid Arloesi. Nododd Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol er enghraifft, eu bod wedi gwario mwy na grant eu cyllid Arloesi ar newidiadau cwricwlwm pan ystyrir yr adnoddau a chostau ehangach. Credai athrawon fod adnoddau TG yn enwedig yn hanfodol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. 'Roedd wedi costio cryn dipyn yn fwy i ni na'r arian a gawson ni. Os yw e'n mynd i weithio, rhaid i chi fuddsoddi. Mae goblygiadau cost i dechnoleg ac adnoddau, ond bydd amser pan fydd y costau TG yn lefelu.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol).

3.98 Felly mae amrywiaeth o gostau yn gysylltiedig â pharatoi at newid cwricwlwm. Awgrymodd uwch staff y gellid cynnwys costau hyfforddiant ac 'amser' ar gyfer staff, yn ogystal â blaenoriaethau recriwtio, yng nghynlluniau'r ysgol wrth feddwl am y dyfodol. Fodd bynnag, tanlinella ysgolion fod ad-drefnu ehangach ar y gweithlu, cyllido'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ac o bosibl sicrhau amser i athrawon gynllunio a datblygu addysgu, fodd bynnag, yn debygol o fod yn gostau y bydd pob ysgol yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod pontio i gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

**Y Dyfodol**

3.99 Roedd uwch staff ac athrawon ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus mewn pryd, cyn belled â bod cefnogaeth a gwybodaeth ddigonol ar gael. Y prif bryder a ffactor allweddol ynghylch ei gyflwyno'n raddol yn y dyfodol oedd diffyg manylion a gwybodaeth ynghylch meini

prawf asesu ac atebolrwydd. Roedd Cyfnod Allweddol 4 yn bryder arbennig i nifer o ysgolion uwchradd.

> ‘Mae ein pryder yn ymwneud ag Estyn a beth fyddant hwy yn ei ddweud o ran beth y byddant yn chwilio amdano. A yw Estyn yn mynd i newid o ran mesurau atebolrwydd? Sut fydd Cyfnod Allweddol 4 yn edrych? Os yw’n seiliedig ar y cynnwys neu ar wybodaeth, bydd hynny’n dylanwadu ar y graddau y gallwn bwysleisio sgiliau [yn y cwricwlwm].’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

> ‘Mae’r TGAU [yn] peri pryder – rydyn ni angen arweinwyr ar gyfer y meysydd pwnc. Mae’n mynd i fod yn anodd iawn heb wybod beth yw’r continwwm. Mae’r staff yn barod i dreialu Cyfnod Allweddol 3, ond dydyn ni ddim wedi dechrau ar Gyfnod Allweddol 4. Camau bychain ar draws yr ysgol yw beth rydyn ni’n ei wneud, ond dydyn ni ddim yn gwybod ble i ddechrau gyda TGAU.’ (Cyfweliad Pennaeth ac Uwch Staff, Ysgol Uwchradd ddwyieithog sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm)

3.100 Roedd pryderon ynghylch yr her o weithredu cwricwlwm sy’n seiliedig i raddau helaeth ar ddehongliad yr ysgolion. Heb fframwaith clir neu ganllawiau ynghylch ei weithredu, roedd rhai uwch staff yn pryderu y gallai’r newid cwricwlwm mewn gwirionedd fod yn fater o ‘ôl-osod’ strwythurau a chynnwys sy’n bodoli eisoes.

> ‘Bydd y fframwaith yn amwys iawn oherwydd ei fod yn ymwneud â dehongli ar gyfer eich cyd-destun eich hun. Yr anfantais i hynny yw ei fod yn caniatáu i bobl ailosod y cwricwlwm cyfredol. Gallant wneud dim ond ail-labelu adrannau, er enghraifft. Rwy’n aml yn pwysleisio ‘dylech groesawu’r newid’ – peidiwch â’i wrthwynebu.’ (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm)

3.101 O ran camau yn y dyfodol yn y broses Arloesi, roedd rhai ysgolion wedi dechrau proses o rannu eu profiadau gydag ysgolion yn y clwstwr. Fodd bynnag, nid oedd cysondeb yn y dull o rannu profiadau ac ymarfer y tu allan i’r ysgolion Arloesi hynny. Y duedd a godai oedd bod ysgolion yn edrych i’r consortia i ddatblygu strwythurau a systemau ar gyfer cefnogi lledaenu ymarfer a phrofiadau.

3.102 Pryderai aelodau uwch staff hefyd am y cyd-destun gwleidyddol ehangach a’r ewyllys i fwrw ymlaen â gweledigaeth Dyfodol Llwyddiannus o’r cwricwlwm. Codwyd pryderon ynghylch ewyllys y llywodraeth i fynd ar drywydd agenda Dyfodol Llwyddiannus a

chwricwlwm a gydgynhyrchir waeth beth fo'r ddadl wleidyddol a chyhoeddus ehangach yn ymwneud ag addysg yng Nghymru. Y prif bryder oedd ymyrraeth gan y llywodraeth mewn ymateb i ddadl gyhoeddus neu wleidyddol ynghylch canlyniadau neu brofion PISA.

> 'Rydyn ni'n gwybod sut y bydd yn rhyw fath o edrych. Rydyn ni'n gwybod y datganiadau "Beth sy'n Bwysig". Rydyn ni'n gwybod am y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Rydyn ni'n gwybod am gynnydd. Rydyn ni'n gwybod am fywyd go iawn a'r bachyn ystyrlon. Oni bai am hynny, dyna ni. O gael llonydd, gallem greu cwricwlwm yn seiliedig ar hynny dros amser, ond dydyn ni ddim yn gwybod sut mae'n edrych. Maen nhw wedi addo ymreolaeth a gobeithio y cawn ni hynny.' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol)

3.103 Mynegwyd pryderon gan rai o'r cyfranogwyr ynghylch y broses Arloesi ei hun, yn ogystal â'r tebygolrwydd y byddai ysgolion Arloesi yn gallu cefnogi ysgolion eraill yn llwyddiannus fel rhan o gamau'r broses yn y dyfodol.

> 'Nid wyf yn credu bod y model cwricwlwm o rannu gwybodaeth ag ysgolion nad ydynt yn Arloeswyr yn gweithio. Yng Ngham 3, rydym yn mynd allan i weithio gydag ysgolion eraill. Ond oherwydd ei fod yn canolbwyntio gymaint ar wneud penderfyniadau ar lefel ysgol, nid yw hynny'n rhwydd. Credaf fod angen rhyw fath o neges ganolog gan Lywodraeth Cymru, gan rannu gwybodaeth gydag ysgolion nad ydynt yn Arloeswyr. Yn debyg iawn i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol neu gwestiynau a chamau safonol i'w trosglwyddo i ysgolion eraill – a yw eich ysgol yn barod math o beth. Hefyd, efallai na fydd digon o ysgolion Arloesi hyd yn oed i gael y neges honno allan. Yr hyn nad ydych chi eisiau ei gael yw model ar ddau gyflymder [sef ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner].' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm)

3.104 Pryder arall wrth edrych i'r dyfodol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, oedd dealltwriaeth y rhieni o'r cwricwlwm. Roedd diffyg deall y pwyslais ar sgiliau a'r symud i ffwrdd oddi wrth bynciau tuag at y Meysydd Dysgu a Phrofiad eisoes wedi codi pryderon ymysg rhai rhieni. Soniodd rhai athrawon am orfod lliniaru pryderon rhieni: 'Pam nad ydych chi'n addysgu mathemateg erbyn hyn?' (Cyfweliad Uwch Staff, Ysgol Uwchradd cyfrwng-Saesneg sy'n Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol) Roedd nifer o

uwch staff ysgolion uwchradd o'r farn y dylid gwneud ymdrechion i addysgu a rhoi gwybodaeth i rieni am y newidiadau.

**Astudiaeth Achos A**

3.105 Mae Astudiaeth Achos A yn Ysgol Arbennig. Mae gan ddysgwyr anghenion cymhleth a chynigir amrywiaeth o therapïau gwahanol yn yr ysgol. Mae'n Arloeswr Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm.

3.106 Roedd staff yr ysgol yn gyfarwydd ag egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus ac yn gadarnhaol amdanynt. Er bod y pennaeth wedi ysgwyddo arweiniad strategol, roedd yr arweinyddiaeth ar newidiadau ac addysgu yn y dosbarth wedi mynd yn fwy gwasgaredig a'i throsglwyddo i reolwyr canol a staff addysgu. Mae aelod o'r Uwch Dîm Arwain a dau reolwr canol bellach yn arwain ac yn gwthio'r newid o ddydd i ddydd.

3.107 Ers derbyn cyllid Arloesi, mae'r ysgol wedi ad-drefnu ei strwythur rheoli i ddarparu ar gyfer y newidiadau i addysgu yn yr ystafell dosbarth. Mae strategaeth recriwtio'r ysgol hefyd wedi'i fireinio i roi pwyslais ar wybodaeth am Dyfodol Llwyddiannus a'r sgiliau cysylltiedig.

3.108 O ran addysgu yn y dosbarthiadau, mae dogfennau cynllunio a chyfarfodydd yn canolbwyntio ar y pedwar diben ac ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r datganiadau ynghylch y dibenion yn ganolbwynt i gynllunio gwersi.

3.109 Ad-drefnwyd yr amserlen a'r diwrnod addysgu, gan ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd yn y bore a Maes Dysgu a Phrofiad yn y prynhawn. Oherwydd yr anghenion cymhleth sydd gan ddysgwyr, mae'r ffocws ar Iechyd a Lles a Chyfathrebu.

3.110 Mae'r ysgol yn rhannu ei harferion a'i harbenigedd yn rheolaidd gydag ysgolion eraill – ysgolion arbennig a phrif ffrwd – mewn amryw o ffyrdd. Mae'n rhannu trwy ddiwrnodau agored; cynadleddau – yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol; yn rhannu dogfennau anffurfiol; a thrwy therapïau. Yn ogystal, mae'n cyfrannu'n rheolaidd at wefan "Hwb" Llywodraeth Cymru.

3.111 Mae rhai aelodau o'r uwch staff dan yr argraff fod y newidiadau wedi cael eu rhuthro, ac nid yw'r holl staff yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau. Mae hyn yn arbennig o wir am y staff sydd â mwy o brofiad o weithio o dan y cwricwlwm presennol.

3.112 At hynny, nid yw uwch staff a rhai llywodraethwyr yn gweld ‘llygad yn llygad’ â’i gilydd am y cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, gyda rhywfaint o wrthwynebiad yn dod o du’r llywodraethwyr ynghylch y newidiadau sy’n cael eu rhoi ar waith. Y farn ymhlith yr uwch staff oedd nad oedd pob aelod o’r staff a’r llywodraethwyr yn deall y diweddaraf ynghylch goblygiadau cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Cododd y diffyg consensws ei ben rai misoedd yn ôl i fod yn rhwystr i newid pellach yn yr ysgol.

3.113 Mae gan yr Uwch Dîm Arwain oll bryderon ynghylch y dyddiad y mae’r ddogfen i’w chyhoeddi a sut beth fydd y ddogfen derfynol. Mae ganddynt bryderon hefyd ynghylch sut y caiff yr ysgol ei mesur neu ei dal i gyfrif. Pryder arall yw pa mor briodol yw’r ‘Camau Cynnydd’ ar gyfer eu dysgwyr hwy sydd ag anghenion cymhleth gan fod llawer o ddisgyblion yr ysgol yn gweithio ar lefelau datblygiadol cyn y rhai a ragwelir yng Ngham Cynnydd 1.

3.114 Serch hynny, ar ôl dwy flynedd yn y swydd, mae’r ddau reolwr canol yn CA2 bellach yn arwain y newidiadau ynghyd ag uwch aelod o’r staff. Mae gan o leiaf ddau aelod o staff radd uwch mewn AAA / Cynhwysiant ac mae ganddynt ddiddordeb personol mewn ymchwil. Roeddent yn gadarn o’r farn mai ymchwil sy’n seiliedig ar ymarfer yw’r ffordd ymlaen i sicrhau bod addysgeg yn parhau’n rhagorol yn yr ysgol. Roedd yr aelodau staff felly yn gyffrous ac yn frwdfrydig ynghylch y cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

3.115 Gan fod Cadeirydd newydd y Llywodraethwyr yn frwdfrydig ynghylch Dyfodol Llwyddiannus a rôl yr ysgol yn ei ddatblygiad, roedd y staff sy’n arwain y newid cwricwlwm yn yr ysgol yn gadarnhaol ynghylch y cyfnod datblygu sydd i ddod.

3.116 Fodd bynnag, teimlai uwch staff sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu cwricwlwm y dylid cael dull mwy mesuredig o reoli newid a defnyddio dull colegol (*collegiate*) ar gyfer arweinyddiaeth yn y dyfodol.

**Astudiaeth Achos B**

3.117 Mae Astudiaeth Achos B yn Ysgol Gynradd cyfrwng-Saesneg wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Nid yw'n ysgol Arloesi, ond mae un o'r prif weithgareddau datblygu cwricwlwm hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar addysgeg, oherwydd, yng ngeiriau aelod o'r uwch staff, 'dyma un o'r ychydig feysydd lle maen nhw'n gwybod yn bendant beth i'w ddisgwyl'.

3.118 Roedd eu prif weithgarwch cyntaf yn cynnwys ymarfer hunanarfarnu a oedd yn canolbwyntio ar yr egwyddorion addysgegol allweddol a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus. Aeth y staff ati i raddio lefel eu hyder yn erbyn pob un o'r egwyddorion addysgegol a defnyddiwyd y wybodaeth hon yn sail i'w cynllun hyfforddi. Fe'i defnyddiwyd hefyd yn sail i ddatblygu eu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys mapio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn erbyn y cwricwlwm: 'Rydym yn edrych ar gwricwlwm yr ysgol ac yn gofyn beth ydym ni'n ei gynnig a sut mae'n cyd-fynd â'r egwyddorion addysgegol yr ydyn ni'n gwybod amdanynt.'

3.119 O ganlyniad, roedd y ffocws cychwynnol ar addysgeg yn hytrach na chynnwys y cwricwlwm. Bu ffocws trwm hefyd ar ddatblygiad proffesiynol a throsglwyddo gwybodaeth. Un o fanteision bod yn ysgol mor fawr yw bod ganddynt eu tîm eu hunain ar gyfer cyflenwi, ac mae'r ysgol wedi gallu symud staff o'r ystafell ddosbarth i uwchsgilio a datblygu eu dulliau i fynd i'r afael â blaenoriaethau trawsgwricwlaidd rhifedd, llythrennedd, a chymhwysedd digidol.

3.120 Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi wedi'u cynnal gan y Bartneriaeth Ddysgu ar addysgeg a datblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae gan yr ysgol raglen datblygu cydweithwyr hefyd gyda'r holl staff yn rhan ohoni – mae un yn addysgu a dau yn arsylwi i driongli adborth. Daw llawer o athrawon o ysgolion eraill i ymweld â hwy oherwydd eu bod yn ysgol arweiniol ar gyfer rhifedd; felly, caiff gwybodaeth ei rhannu drwy'r mecanwaith hwnnw.

3.121 Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud newidiadau strwythurol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Sefydlwyd Grŵp Llywio Cwricwlwm a rhoddwyd y gwaith iddo archwilio sut y gall yr addysgu symud tuag at y pedwar diben a ddynodir yn Dyfodol Llwyddiannus. Lluniodd y

grŵp strategaeth i fwrw ymlaen â hyn drwy alinio eu cwricwlwm fel bod rhaid i'r holl addysgu fod yn gysylltiedig ag un o'r pedwar diben. Maent wedi cydweithio â dwy ysgol Arloesi lleol ac wedi datblygu cynllun tymor canolig i weithredu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

3.122 Yn fwy diweddar, mae'r ysgol wedi pennu cyfrifoldebau arweinyddiaeth cwricwlaidd sy'n gysylltiedig â phob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'r ysgol wedi ymgynnull grŵp o staff addysgu i drefnu'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus i'w gyflwyno i ddwy flwyddyn ysgol (blynyddoedd 7 ac 8). Mae ganddynt gyfarfodydd yr is-gamau bedair gwaith bob tymor i drafod y materion hyn yn fanwl. Yn ôl y pennaeth: 'Mae adolygu'r cwricwlwm yn digwydd dan arweiniad Grŵp Llywio'r Cwricwlwm a bydd gan yr athrawon berchnogaeth ar ddatblygu'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Byddant yn cael gweld y fframwaith cyffredinol ac yn penderfynu beth sydd angen iddynt ei wneud o fewn hynny.'

3.123 Yn fwy penodol, gwnaed newidiadau i'r system farcio, gan ganolbwyntio ar symlrwydd a chysondeb: 'Mae pob athro bellach yn marcio yn yr un ffordd (dau stamp: gwyrdd a phinc ar gyfer cynnydd/cyrhaeddiad).' O ran rheoli perfformiad, maent wedi symud i fod â mwy o ffocws ar wrando ar ddysgwyr.

3.124 Mae'r Cynllun Gwella Ysgol yn rhoi lle blaenllaw i anghenion hyfforddi pellach a chydnabuwyd bod sesiynau HMS yn ffordd o sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei dderbyn.

3.125 Un prif rwystr allweddol i'r uwch staff sy'n cydlynu'r gweithgareddau ar lefel strategol yw'r diffyg manylion am y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae yma ddealltwriaeth o'r egwyddorion, ond nid oes digon o fanylion. Cyfaddefodd y pennaeth fod elfen o risg i'w gweithgareddau:

> 'Rydyn ni'n gwybod beth yw'r weledigaeth fawr ond nid y manylion. Roedd yn rhaid inni benderfynu a fyddem yn aros am eglurder pellach neu fynd ati i gymryd camau cadarnhaol. Rydym wedi penderfynu gwneud yr ail oherwydd bod angen inni fod yn barod, er ei fod yn risg. Dydyn ni ddim yn hyderus sut y bydd yn edrych ymhen 12 mis, ond gallaf ddeall pam oherwydd bod raid inni ei gael yn iawn. Nid yw Estyn wedi rhoi dim arweiniad ar y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Rydyn ni'n gwybod am y datganiadau

“Beth sy'n Bwysig” a’r Maes Dysgu a Phrofiad, ond dyna ni.’

3.126 Mae’r pontio o’r cwricwlwm presennol i gwricwlwm a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus wedi bod yn rhwystr allweddol arall. Yng ngeiriau un aelod o uwch staff: ‘…mae’r ddogfen gyfreithiol ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ein harafu ac yn peri oedi. Mae’r hen fframweithiau yn dal gennym a ninnau’n rhwym i’r rheiny – rydyn ni’n ceisio symud ymlaen ond mae hwnnw’n ein dal yn ôl.’

3.127 Dywedodd y staff fod Estyn yn dal i’w marcio ar yr hen gwricwlwm, gan ei gwneud yn anodd cael yr amser i sicrhau eu bod yn cwmpasu popeth sy’n rhan o’r cwricwlwm presennol, yn enwedig Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg, ar yr un pryd â symud tuag at gwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus: ‘Mae cysgod Estyn drosom ni; maent am weld camau yn cael eu cymryd tuag at y cwricwlwm newydd ond maen nhw’n sgorio ar yr hen un.’ Mae hwn yn rhwystr arbennig yn CA2 lle mae mwy o bwysau yn gysylltiedig ag asesu.

3.128 Yn olaf, mae’r ysgol yn disgwyl i ddatblygiad yr addysgu mewn perthynas â'r iaith Gymraeg fod yn anodd. Dywedodd un aelod o uwch staff: ‘Mae cael dwyieithrwydd llwyr yn anodd – mae’n golygu arian ac amser. Gallu yn yr iaith Gymraeg oedd wedi sgorio isaf yn ein hunanasesiad.’

3.129 Yn y pen draw, awgrymodd uwch staff a staff addysgu fod angen rhagor o amser. Yn ôl aelod o’r uwch staff:

> ‘Mae angen mwy o amser [arnom] i wneud hyn. Nawr mae angen inni gael pawb i fod yn rhan drwy’r amser a dyna ein her... Mae’n cymryd amser mewn ysgol o’r maint hwn i hyfforddi pawb i weithio ar ddysgu cydweithredol. Mae maint helaeth yr ysgol hefyd yn heriol o ran sicrhau bod pawb wedi derbyn yr un neges a bod cysondeb yn y dulliau newydd, er bod athrawon yn dehongli’r neges yn wahanol.’

3.130 Mae cymryd rhan yn y Sgwrs Fawr dair blynedd yn ôl a brwdfrydedd mwy cyffredinol tuag at y newidiadau, fodd bynnag, wedi arwain at ennyn diddordeb staff. Trefnodd y Tîm Arwain gyflwyniadau i’r staff yn gynnar yn y broses a chynnal nifer o drafodaethau amdano. Teimlwyd bod hyn yn allweddol i sicrhau ymrwymiad ac ymdeimlad o berchnogaeth gan staff. Mae hefyd yn bwysig wrth sicrhau cysondeb a bod yr holl staff yn gweithio tuag at yr un amcanion.

3.131 Credwyd bod rhoi perchnogaeth i staff a’r cyfle iddynt arwain y newid hefyd wedi

bod yn hollbwysig. Dywedodd aelod o'r uwch staff:

> 'Mae'r cyfle yno i'w wneud yn y ffordd sy'n gweithio i'n plant ac arwain yn y ffordd rydym ni eisiau. Perchnogaeth ar y cwricwlwm – mae'n fwy pwerus. Gweithiodd y grŵp llywio yn dda ac mae staff eraill yn cyfrannu. Mae angen mwy o gyfleoedd arnom i rannu a datblygu.'

3.132 Yn ôl un athrawes: 'Rydyn ni'n teimlo ein bod ni i gyd yn rhan ohono. Rydyn ni wedi cael trafodaethau onest. Yn ein cyfarfod HMS diwethaf roedd yr holl staff yn taflu syniadau ac mae wedi bod yn broses ddeinamig gyda phawb yn bwydo i mewn iddo.'

3.133 Mae'r ysgol wedi defnyddio rhwydweithiau lleol i weithio gydag Arloeswyr lleol i ddysgu am y newidiadau y maent wedi'u gwneud. Maent wedi edrych yn fanwl ar y newidiadau a wneir gan ysgolion eraill i gael ysbrydoliaeth. Fodd bynnag, soniodd yr athrawon hefyd am yr angen i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad. Fel y dywedodd un aelod o uwch staff: 'Rydym angen mynediad i ysgolion Arloesi a chael mynediad at yr hyn maen nhw'n ei wneud cyn iddynt gyhoeddi'r ddogfen derfynol.'

# 4. Dadansoddi'r Rheoli Newid

4.1 Mae'r bennod hon yn dadansoddi data'r ymchwil o safbwynt y 7-S. Ei nod yw dadansoddi'r ysgolion a'r graddau y maent yn rheoli newid i'r cwricwlwm trwy eu gweithgareddau.

**Strategaeth**

4.2 Mae pob ysgol yr ymwelwyd â hi wedi gosod y newid cwricwlwm wrth wraidd eu datblygiad dros y blynyddoedd nesaf, ac mae eu Cynlluniau Gwella Ysgol yn adlewyrchu hynny.

4.3 Dywedodd bron pob ysgol eu bod yn gweld y gweithgareddau a gynhelir fel camau ar daith tuag at gael cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mewn llawer o achosion, roedd y Cynllun Gwella Ysgol yn adlewyrchu'r bwriad i ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys ysgolion Arloesi ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Bydd y gweithgareddau hyn yn y dyfodol yn ceisio ehangu'r gweithgareddau newid cwricwlwm trwy'r ysgol a'r staff (ac eithrio CA4).

4.4 Mae gan weithgareddau arloesi ran bwysig yn y Cynlluniau Gwella Ysgol gan roi modd i ysgolion ddatblygu dulliau o fynd i'r afael yn fwy hyderus ac yn gyflymach â chwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, gan roi adnoddau digonol i hynny heb dynnu adnoddau o feysydd eraill y gyllideb.

4.5 Mae gweithgareddau Arloesi hefyd wedi'u halinio â blaenoriaethau ehangach o fewn Cynlluniau Gwella a'r gweithgareddau yn cael eu datblygu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Roedd hyn yn aml yn fwriadol, ac yn gysylltiedig â'r cais am statws Arloeswr.

4.6 Ym mhob ysgol uwchradd a samplwyd, erys y rhwystr 'caled' rhwng y cam canol a CA4 oherwydd amharodrwydd ysgolion i ddiwygio neu ddatblygu unrhyw agwedd ar brofiad disgyblion a allai gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad TGAU. Nid oedd ysgolion wedi cynllunio neu ddatblygu eu strategaeth i gyfnod CA4 ychwaith gan honni na fyddent yn gwneud hynny hyd nes y byddai rhagor o fanylion ar gael ynghylch cyrhaeddiad ac asesu TGAU.

4.7 Mae ysgolion wedi ymgorffori newid cwricwlwm i fod wrth wraidd eu strategaeth. Bydd y strategaethau newydd hynny yn ceisio sicrhau bod y symud tuag at gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wedi'i gyllido, yn gymesur ac wedi'i ymgorffori ar gyfer yr hirdymor. Fodd bynnag, mae newid cwricwlwm yn yr ysgolion

hyn wedi'i gyfyngu i bob pwrpas i'r cyfnod hyd at ac yn cynnwys blwyddyn 9 neu CA3. Mae'r cyfnod CA4 / TGAU wedi'i hepgor o'r newid cwricwlwm ar hyn o bryd.

4.8 Yn bwysig, mae'r strategaethau yn ystyried ac yn gysylltiedig â newid strwythurau, datblygu sgiliau a chyflwyno gwerthoedd cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn raddol i staff.

**Strwythur**

4.9 Mae'r gweithgareddau a gynhelir fel ysgolion Arloesi neu wrth ddatblygu cwricwlwm yn amrywio o weithgareddau 'cyffyrddiad ysgafn', megis hyfforddi a rhannu gwybodaeth neu brofiadau, i ad-drefnu'r gweithlu ledled yr ysgol.

4.10 Er bod rhai ysgolion wedi teithio ymhellach ac yn gyflymach nag eraill, cytunai pob un mai mynd ati fesul tipyn i newid cwricwlwm oedd orau. Er bod ysgolion a ad-drefnwyd yn ddiweddar wedi manteisio ar hyn i sefydlu strwythurau o'r newydd, roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithio gyda grwpiau llai o athrawon i ddechrau arni, cyn ehangu gweithgareddau ac yna cynnwys rhagor o staff.

4.11 Datblygai'r newid strwythurol gan mwyaf ochr yn ochr â darpariaeth yr ystafell ddosbarth ac yn unol â'r strategaeth. Yr unig eithriadau oedd rhai ysgolion uwchradd a oedd wedi ad-drefnu eu gweithlu cyfan yn gyfadrannau Meysydd Dysgu a Phrofiad, er mai grwpiau dethol o ddisgyblion yn unig y cyflwynwyd cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus iddynt.

4.12 Profwyd bod rhoi perchnogaeth ar y cwricwlwm yn nwylo grwpiau penodol o staff addysgu yn ysgogol ac yn gyffrous i'r athrawon hynny. Nododd y rhan fwyaf o uwch staff mai gwneud hynny oedd y ffordd fwyaf priodol o ddatblygu addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

4.13 Roedd staff ysgolion cynradd yn aml yn nodi eu bod yn fwy cyfforddus ac yn agored i'r newidiadau angenrheidiol, tra bod ysgolion uwchradd yn dueddol o godi mwy o bryderon, yn enwedig o ran asesu ac atebolrwydd. Nodwyd yn aml hefyd fod newid y cwricwlwm yn golygu diwygio mwy sylfaenol ar strwythurau ac addysgu ysgolion uwchradd na rhai ysgolion cynradd.

**Systemau**

4.14 Prif bryderon y staff a holwyd oedd pryderon yn ymwneud â systemau ar gyfer lledaenu gwybodaeth trwy'r system addysg yng Nghymru. Galwai'r staff am wybodaeth haws cael gafael arni a mwy manwl ynglŷn â'r cwricwlwm, ei ddatblygiadau a'i oblygiadau. Roedd hyn yn rhannol oherwydd teimlai athrawon fod y systemau presennol ar gyfer lledaenu gwybodaeth i uwch staff a staff addysgu yn methu â darparu'r wybodaeth fanwl berthnasol.

4.15 Roedd pryderon penodol ymhlith uwch staff ynghylch y diffyg manylion a gâi eu rhannu yn ymwneud ag asesu ac atebolrwydd, yn ogystal â ffurf CA4 / TGAU yn y dyfodol. Roedd yr ansicrwydd yn rhwystr rhag gwthio newidiadau ymhellach na blwyddyn 9 mewn ysgolion uwchradd ac yn bryder sylweddol ymysg athrawon unigol mewn ysgolion uwchradd.

4.16 Roedd ansicrwydd hefyd ymhlith staff addysgu a staff cymorth ynghylch eu rolau penodol a'r disgwyliadau arnynt mewn cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Er bod arweinwyr ysgolion wedi ceisio ymchwilio i gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus a darllen y ddogfennaeth sydd ar gael, ychydig o staff addysgu fyddai'n mynd i chwilio am wybodaeth o'r fath. Siaradai'r olaf yn aml am yr awydd i gael gwybodaeth haws cael gafael arni a mwy cryno yn ymwneud ag effaith y cwricwlwm ar eu rôl fel athrawon.

4.17 Codwyd pryderon pellach, yn enwedig yn yr ysgolion uwchradd, am ddealltwriaeth rhieni am y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd athrawon o'r farn nad oedd gwybodaeth am y newidiadau tebygol wedi'i gyfathrebu'n effeithiol i rieni. Mewn rhai achosion roedd rhieni wedi mynegi pryderon ynghylch y newidiadau yr oeddynt wedi'u gweld yn yr ysgolion.

4.18 Ystyriwyd mai llwyddiannus oedd y systemau a sefydlwyd i rannu a lledaenu gwybodaeth a godai o'r broses datblygu cwricwlwm ac i rannu manylion am y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus rhwng consortia a'r arweinwyr Arloesi mewn ysgolion. Gwerthfawrogwyd a sylweddolwyd gwerth cefnogaeth y consortia i staff uwch hefyd – o ran yr wybodaeth am ddyluniad y cwricwlwm a'r arlwy Dysgu Proffesiynol.

4.19 Mae rhai ysgolion wedi sefydlu systemau ffurfiol mewnol a dulliau rhannu gwybodaeth rhwng staff sydd wedi bod yn ymwneud â'r newid cwricwlwm a'r rheiny nad ydynt. Gwnaed hyn yn amlach na pheidio yn ystod diwrnodau HMS yn yr ysgolion Partner ac Arloesi. Roedd lledaenu anffurfiol hefyd yn digwydd yn yr ysgolion.

4.20 Yn wir, roedd yr athrawon hynny a oedd wedi bod yn rhan o weithgareddau newid cwricwlwm ac wrthi'n addysgu'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn cael eu hystyried ganddynt hwy eu hunain a chan eraill yn eiriolwyr brwdfrydig dros y cwricwlwm diwygiedig. Cynrychiolant gnewyllyn o staff ym mhob ysgol sydd ar flaen y gad wrth ysgogi eraill yn ogystal â chefnogi'r broses newid cwricwlwm trwy'r ysgol a thu hwnt.

4.21 Mae athrawon yn yr ysgolion hynny sydd hefyd yn aelodau o grwpiau datblygu Maes Dysgu a Phrofiad yn mynd ati'n anffurfiol i ledaenu'r datblygiadau diweddaraf megis y datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' yn eu hysgolion. Croesawyd bob amser y gwaith o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i athrawon ar ddatblygiadau. Roedd staff sy'n gyfrifol am arwain a chyflwyno'r dulliau newydd hefyd yn croesawu unrhyw gadarnhad a sicrwydd a geid eu bod 'ar y trywydd iawn'.

4.22 Mae rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner wedi dechrau mewn rhai achosion, yn enwedig o fewn clystyrau. Fodd bynnag, nid oes cysondeb ar hyn o bryd o ran ffurf neu gynnwys lledaenu o'r fath. Nodwyd hefyd bod diffyg strwythurau ffurfiol i hwyluso cydweithio yn broblem allweddol i werthuso'r model Arloesi yn ffurfiannol.[20]

4.23 Roedd y rhan fwyaf o athrawon ar ddeall mai'r Consortia sy'n gyfrifol am ddatblygu'r systemau allanol ar gyfer rhannu ymarfer a phrofiadau rhwng ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner. Fodd bynnag, credai llawer o ysgolion ac athrawon nad oedd y systemau hyn wedi'u sefydlu eto, ac roedd rhai o'r farn na fyddent yn ddigonol i ledaenu ymarfer a gwybodaeth o ysgolion Arloesi i ysgolion eraill yng Nghymru.

4.24 Roedd pryderon hefyd ynghylch y deunyddiau cyfrwng Cymraeg, sef yn benodol yr iaith a ddefnyddid yn y ddogfennaeth ynghylch y cwricwlwm dan ddatblygiad, megis y datganiadau 'Beth sy'n Bwysig'. Dywedodd uwch aelodau o staff a'r rhai sy'n ymwneud â grwpiau datblygu fod ganddynt bryderon nad oedd y dogfennau a gyfieithwyd wedi derbyn yr un sylw beirniadol â'r fersiynau Saesneg. Roedd pryderon na fyddai'r dogfennau swyddogol ar gyfer y cwricwlwm na'r datganiadau cysylltiedig

[20] Gweler Gwerthusiad ffurfiannol o fodel Ysgolion Arloesi

wedi'u cyfleu a'u cyfathrebu'n ddigonol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg os câi'r dogfennau ond eu cyfieithu heb gael mewnbwn beirniadol gan weithwyr addysg proffesiynol.

4.25 Dengys y canfyddiadau fod athrawon yn teimlo nad oedd y systemau yn lledaenu gwybodaeth berthnasol ynghylch asesu ac atebolrwydd, yn ogystal â manylion ynghylch rolau unigolion. Mae'r systemau hyn yn bwysig wrth alluogi uwch staff i ddatblygu strategaethau digonol ar gyfer newid y cwricwlwm y tu hwnt i CA3, a hefyd wrth gefnogi gwerthoedd cyffredin ac i sicrhau cymaint o gefnogaeth â phosib ymhlith y gweithlu i'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd peth tystiolaeth o ledaenu gwybodaeth rhwng staff yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy a lledaenu ymarfer o ysgolion Arloesi i ysgolion Partner yng Nghymru. Codwyd pryderon ehangach ynghylch lledaenu gwybodaeth am y cwricwlwm trwy ddogfennaeth yn y Gymraeg.

**Gwerthoedd cyffredin**

4.26 Mae'r gwerthoedd wrth wraidd y model ac yn ymwneud ag agweddau, dealltwriaeth ac ymrwymiad adnoddau dynol y sefydliad. Y gwerthoedd hyn yw'r man cychwyn ar gyfer pob newid. Maent yn cynnwys y normau, gwerthoedd a chredoau sy'n sail i'r broses gyfan o newid cwricwlwm yng nghyd-destun yr ymchwil hwn. Maent yn allweddol i ysgogi a hwyluso'r ymgysylltu â goblygiadau ymarferol Dyfodol Llwyddiannus.

4.27 Roedd y cyfweliadau ansoddol a'r holiadur ategol ill dau wedi dangos fod ymwybyddiaeth eang o Dyfodol Llwyddiannus, yn ogystal â chytundeb nad oedd y cwricwlwm presennol yn addas i'r pwrpas. Ni cheisiodd unrhyw un a gyfwelwyd ddadlau o blaid y cwricwlwm presennol.

4.28 Dangosodd data o'r holiadur nad oedd pob aelod o staff yn cytuno mai Dyfodol Llwyddiannus oedd y ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm presennol, a bod cyfle felly i ddarbwyllo ymhellach ei fod yn mynd i'r cyfeiriad priodol.

4.29 Er nad oedd yn gynrychioliadol o'r gweithlu cyfan, eto roedd diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am ddull Dyfodol Llwyddiannus yn tueddu i ddod o staff addysgu neu staff cymorth, sef rhannau allweddol y gweithlu sy'n gyfrifol am gyflwyno unrhyw gwricwlwm. At hynny, codwyd pryder mwy penodol mewn ysgolion uwchradd ynghylch absenoldeb canfyddedig rôl ar gyfer arbenigedd pwnc yn y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, yn ogystal â'r angen canfyddedig i ailhyfforddi.

4.30 Mae'r systemau sy'n bodoli ar gyfer lledaenu gwybodaeth wedi cael sylw uchod, ond maent wedi'u cysylltu'n agos â datblygu consensws ledled y gweithlu ynghylch y gwerthoedd cyffredin a fynegir yn Dyfodol Llwyddiannus.

4.31 Roedd y gwerthoedd cyffredin hyn yn amlwg yn y Cynlluniau Gwella Ysgolion, gan osod agweddau craidd dogfen Dyfodol Llwyddiannus wrth wraidd strategaeth yr ysgolion. At hynny, ystyriai'r uwch staff a'r rheolwyr canol mai amcanion a nodau craidd y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus oedd eu hamcanion strategol hwythau yn yr ysgol.

4.32 Roedd agenda Dysgu Proffesiynol pob ysgol, wedi'i arwain gan eu Cynllun Gwella, yn ymwneud yn bennaf ag uwchsgilio a datblygu'r gweithlu i weithredu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

4.33 Ar y cyfan, roedd mwyafrif y staff yn ymwybodol o egwyddorion a nodau craidd Dyfodol Llwyddiannus, ac yn cytuno â hwy. At hynny, roedd yr egwyddorion craidd yn ganolog i'r gweithgareddau datblygu cwricwlwm a welwyd mewn ysgolion. Awgryma model 7-S y byddai'r gefnogaeth eang a'r cytuno hwn ag egwyddorion craidd Dyfodol Llwyddiannus a'r cwricwlwm y mae'n ei ysbrydoli yn fuddiol i ymgysylltiad a chefnogaeth ehangach y staff. Roedd y gwerthoedd yn glir yn y Cynlluniau Gwella Ysgolion yn ogystal ag yn glir yn amcanion a nodau uwch staff a rheolaeth ganol. Fodd bynnag, mae staff addysgu a staff cymorth yn llai hyderus yn Dyfodol Llwyddiannus fel y cyfeiriad cywir yn ogystal â bod yn llai hyderus yn eu rolau eu hunain mewn cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan y ddogfen honno.

**Arddull**

4.34 Credid gan lawer fod arweinyddiaeth yn allweddol i wthio newid cwricwlwm ymlaen ar gam cynnar. Ynghyd â'r gred ehangach mai dechrau yn gynnar a symud ymlaen yn raddol dros gyfnod o sawl blwyddyn fyddai'r dull mwyaf effeithiol o addasu i gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, deallwyd hefyd fod arweinyddiaeth flaengar yn elfen hanfodol, gan ennyn brwdfrydedd a chymell staff addysgu.

4.35 Ystyriwyd bod newidiadau graddol a osodwyd gan uwch arweinyddiaeth yn briodol, gan fod pob ysgol yn gallu symud ymlaen ar eu cyflymder eu hunain, wrth sicrhau bod gan y staff ddigon o sgiliau a gwybodaeth i gyflawni'r newidiadau, tra bod strwythurau caled yno i'w cefnogi.

4.36 Roedd arweinyddiaeth newid cwricwlwm, fel y disgwylid, wedi'i gyrru'n strategol yn y lle cyntaf gan benaethiaid a staff yr Uwch Dîm Arwain trwy'r broses ymgeisio i fod yn Arloeswr neu drwy unigolion allweddol mewn swyddi arwain yn yr ysgolion Arloesi a Phartner ill dau. Câi'r gweithgareddau oedd yn gysylltiedig â newid y cwricwlwm yn aml eu cydlynu gan aelodau dynodedig yr UDA mewn ysgolion uwchradd, ac un aelod o'r UDA neu'r pennaeth mewn ysgolion cynradd.

4.37 Roedd gan yr arweinyddiaeth rôl wrth ysgogi aelodau staff i ymgysylltu â'r broses ac i alluogi newid yn y cwricwlwm trwy annog arbrofi a gwerthfawrogi cymryd risg.

4.38 Fodd bynnag, roedd y cyfrifoldeb am ddatblygu a chynllunio gweithgareddau sy'n ymwneud â disgyblion (megis addysgu trwy gyfadrannau newydd Meysydd Dysgu a Phrofiad neu grwpiau o athrawon) yn aml wedi'i ddirprwyo i reolwyr canol ac athrawon penodol.

4.39 Deallai arweinwyr ysgolion yn glir mai elfen allweddol ar newid cwricwlwm yn llwyddiannus yw perchnogaeth a chyfranogiad yr holl staff, yn ogystal â ffurfio timau cynllunio penodol. Credwyd bod rhoi perchenogaeth i reolwyr canol wedi creu brwdfrydedd ymhlith y staff, oherwydd fod ei gyflwyno'n rhannol yn rhan allweddol o sicrhau bod staff yn symud ymlaen gyda'u hymdrechion i ddatblygu'r cwricwlwm, heb adael i rwystrau posibl greu oedi. Roedd dirprwyo manylion o'r fath i reolwyr canol a staff addysgu hefyd yn galluogi effaith fwy perthnasol yn yr ystafell ddosbarth.

4.40 Roedd secondio athrawon cynradd mewn ambell ysgol uwchradd hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar staff addysgu eraill ac ar y gallu i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn hyderus. Ystyriai uwch staff yn yr ysgolion hynny fod eu profiad a'u gallu i rannu eu 'ffyrdd o weithio' yn effeithiol, yn ogystal â rhannu diwylliant mwy priodol a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus.

4.41 Yn annibynnol ar ei gilydd, mae ysgolion wedi datblygu arddull a diwylliant cymharol debyg o ran newid cwricwlwm. At hynny, mae'r uwch staff a'r staff addysgu yn ystyried yr arddull hon i fod yn effeithiol wrth annog ymgysylltu, perchnogaeth a brwdfrydedd mewn perthynas â'r broses newid cwricwlwm. Yn benodol, gwelid ei bod yn effeithiol dirprwyo'r cyfrifoldeb dros ddatblygu a chyflwyno cwricwlwm newydd yr ystafell ddosbarth i reolwyr canol a staff addysgu. Mae diwylliant 'perchnogaeth' ar y cwricwlwm trwy'r ysgol gyfan yn cyd-fynd ag arweinyddiaeth ac arddull yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, ac yn wir caiff diwylliant o'r fath ei annog.

**Staff**

4.42 Roedd yr holl staff a gyfwelwyd yn ymwybodol fod cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wrthi'n cael ei ddatblygu yn eu hysgolion. Roedd aelodau staff uwch yn enwedig yn wybodus iawn, tra oedd staff addysgu yn tueddu i ddibynnu ar wybodaeth wedi'i rhaeadru a'i throsglwyddo drwy'r arweinyddiaeth yn yr ysgol.

4.43 Roedd y diffyg eglurder neu fanylion am y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wedi arwain at rai aelodau o'r staff yn teimlo'n ansicr a oedd ganddynt ddigon o sgiliau neu a oeddynt yn ddigon gwybodus i gyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Codwyd pryderon penodol hefyd ynghylch tystiolaeth am gyrhaeddiad mewn llawer o ysgolion. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y staff yn ystyried eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i weithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

4.44 Roedd mwyafrif helaeth y staff a oedd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau newid cwricwlwm yn frwdfrydig yn eu cefnogaeth dros y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Disgwylir hyn gan staff ysgol Arloesi ac athrawon o ysgolion sydd, ar eu menter eu hunain, wedi mynd i'r afael â'r broses newid cwricwlwm. Mae brwdfrydedd o'r fath yn hwyluso'r broses o rannu anffurfiol ar wybodaeth ac ymarfer i gyd-staff ar y naill law, ac yn codi ymwybyddiaeth am y gwerthoedd craidd ymysg y staff eraill ar y llaw arall.

4.45 At ei gilydd, er bod mwyafrif y staff yn yr ysgolion Arloesi a'r ysgolion Partner a astudiwyd yn gefnogol, yn abl ac yn barod i sicrhau llwyddiant newid y cwricwlwm, nid oedd lleiafrif.

**Sgiliau**

4.46 Gweithgaredd allweddol ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi oedd hyfforddi, uwchsgilio a rhoi gwybodaeth i athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Arweiniwyd yr hyfforddiant gan y Cynllun Gwella Ysgol ac egwyddorion allweddol Dyfodol Llwyddiannus.

4.47 Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn hyderus y gellid ac y byddid yn mynd i'r afael ag unrhyw angen hyfforddiant a nodwyd. Roedd archwiliadau sgiliau wrthi neu wedi cael eu cynnal mewn ambell ysgol er mwyn gwerthuso anghenion hyfforddiant. Siaradai nifer o uwch staff hefyd yn ffafriol am y cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigid gan gonsortia, a'u rôl gynorthwyol hwy yn fwy cyffredinol o ran hyfforddiant.

4.48 Roedd y cynllunio hirdymor i ymgorffori'r newid cwricwlwm a welwyd yn yr ysgolion yn awgrymu y byddai'r staff yn cael y cyfleoedd a'r amser i ddatblygu eu sgiliau yn briodol.

**Astudiaeth Achos C**

4.49 Mae Astudiaeth Achos C yn Ysgol Uwchradd cyfrwng-Cymraeg ac yn ysgol Bartner.

4.50 Roedd yr aelodau staff a Chadeirydd y Llywodraethwyr a gyfwelwyd oll yn gadarnhaol ynghylch Dyfodol Llwyddiannus a'r newidiadau oedd ar droed yn yr ysgol. Cytunai'r llywodraethwyr a'r uwch staff fod gan bennaeth yr ysgol y weledigaeth i arwain a'i fod yn arwain y newidiadau. Dywedodd staff rheoli canol fod aelodau eraill yr uwch arweinyddiaeth yr ysgol yn ffigyrau arwain yr un mor bwysig.

4.51 Fel rhan o'i weithgareddau i addasu a datblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, mae Uwch Dîm Arwain wedi bod ar waith er mis Medi 2016 i gyd-fynd â'r symud i adeilad newydd yr ysgol a chyflwyno Dyfodol Llwyddiannus i flynyddoedd 7 ac 8.

4.52 Mae'r amserlen wedi'i haildrefnu'n rhannol yn CA3 yn Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar waith ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8, tra bod y Cynllun Gwella Ysgol yn amlinellu cynlluniau i flwyddyn 9 eu dilyn o fis Medi 2018.

4.53 Mae'r cynllunio yn CA3 yn canolbwyntio ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r pedwar diben, ac mae'r addysgu i ddisgyblion yn digwydd yn unol â Dyfodol Llwyddiannus.

4.54 Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, mae amrywiaeth o raglenni hyfforddi wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain wedi mynd â llawer o amser ac yn gostus o ran yr hyfforddiant a'r 'amser cyflenwi' sy'n gysylltiedig â rhyddhau athrawon. Fodd bynnag, fe'u hystyrir gan staff i fod yn fuddsoddiad gwerth chweil mewn datblygiad proffesiynol.

4.55 Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â'r clwstwr. Yn benodol, mae athrawon wedi cynnal sesiynau gydag ysgolion cynradd Partner ar agweddau ar Dyfodol Llwyddiannus a'u profiadau o gyflwyno i'r disgyblion er mwyn rhannu'r ymarfer a

ddatblygwyd ganddynt dros y cyfnod.

4.56 Nodwyd tensiwn rhwng Dyfodol Llwyddiannus a'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol, yn enwedig o ran asesu ac atebolrwydd. Mae cydymffurfio â dau gwricwlwm wedi bod yn her ac yn rhwystr posibl i ddatblygiad llwyddiannus cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

4.57 Mae'r buddsoddiad mewn amrywiol raglenni hyfforddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r penderfyniad i gynnal yr hyfforddiant mewn sesiynau gyda'r nos ac ar fore Sadwrn (dau y flwyddyn) yn helpu i newid y diwylliant. Mae'r rhaglenni hyfforddiant yn rhai 'parhaus' ac maent yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant megis 'Meithrin Pŵer Dysgu' ac Asesu ar gyfer Dysgu.

4.58 Trefnir hyfforddiant i gyd-fynd ag adrannau a chyfrifoldebau, ac mae yma system fentora effeithiol. Mae gan y gwahanol raglenni hyfforddi hyn egwyddorion allweddol yn sail iddynt sy'n cydweddu â Dyfodol Llwyddiannus: sef canolbwyntio ar y dysgwr; dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysg eu hunain; dysgu trwy brofiad; a datrys problemau, rhesymu, a meddwl creadigol. Mae'r ffocws ar addysgeg, nid ar y 'cynnwys'.

4.59 Credir bod y newid diwylliant yn CA3 yn sgil y ddarpariaeth newydd, y dulliau newydd o ddysgu, a'r ffocws ar sgiliau, yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

4.60 Gan edrych tuag at y dyfodol, nod yr ysgol – a gynlluniwyd trwy ei Chynllun Gwella Ysgol – yw parhau gyda'r rhaglen hyfforddi er mwyn i'r holl athrawon fod yn hyderus yn eu dealltwriaeth a'u disgwyliadau o Dyfodol Llwyddiannus.

4.61 Bydd yr ysgol yn parhau i weithio'n agos gyda'r clwstwr. Byddant hefyd yn anelu at barhau i gynnal cyfarfodydd cwricwlwm bob hanner tymor yn ymwneud â newid y cwricwlwm a pharhau i rannu ymarfer effeithiol wrth ddatblygu profiadau priodol i'w disgyblion.

## 5. Casgliadau

5.1 Mae'r adran olaf hon yn dod â'r ymchwil i ben trwy grynhoi'r prif ganfyddiadau o safbwynt rheoli newid. Yna mae'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau ymchwil craidd.

**Canfyddiadau allweddol o'r safbwynt rheoli newid**

5.2 Pwysleisiai'r model rheoli newid bod angen i'r saith elfen alinio â'i gilydd ac atgyfnerthu ei gilydd er mwyn i sefydliadau reoli newid yn effeithiol. Cefnogir cynnydd mewn un maes gan gynnydd mewn un arall, ac yn yr un modd caiff ei lesteirio gan ddiffyg cynnydd mewn un arall. Mae archwilio'r aliniad yn rhoi modd dod i gasgliadau ynghylch pa mor effeithiol y mae'r ysgolion a astudiwyd yn rheoli eu prosesau newid cwricwlwm.

5.3 Awgryma'r canfyddiadau a'r dadansoddiad a amlinellir yn y penodau blaenorol fod strwythurau caled (Strategaethau, Strwythur a Systemau) yn cael eu halinio â dibenion a gwerthoedd craidd Dyfodol Llwyddiannus.

5.4 Mae strategaethau yn ceisio rhoi'r adnoddau digonol i newid cwricwlwm yn ystod y blynyddoedd i ddod. Maent hefyd yn cysylltu'r newidiadau strwythurol â chyflymder y newid yn yr ysgol, megis pennu cyfrifoldeb penodol dros ddatblygu'r cwricwlwm a gofynion cyllido'r gweithgareddau newid cwricwlwm eu hunain.

5.5 Mae'r newidiadau strwythurol yn aml yn gymesur ac yn alinio â strategaethau ysgolion unigol ond maent yn amrywio rhwng ysgolion. Mae hyd yn oed ysgolion Arloesi a'r rhai mwyaf datblygedig o ran datblygu'r cwricwlwm felly yn symud ar gyflymder a ystyrir yn addas iddynt hwy eu hunain, ond yn wahanol i'w gilydd.

5.6 Ystyriwyd bod cyflymder a natur raddol y newidiadau yn briodol gan uwch staff pob ysgol er mwyn sicrhau bod agweddau eraill o'r ysgol megis y staff a'r strwythurau caled yn cael eu datblygu ar y cyd. Mae'r arddull a'r dull hwn o newid cwricwlwm yn gyffredin trwy'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy.

5.7 Rhaid cydnabod arweinyddiaeth i fod yn agwedd bwysig ar newid cwricwlwm. Roedd yr arweinyddiaeth wedi bod â rhan allweddol wrth ysgogi aelodau'r staff i ymgysylltu â'r newidiadau. Ar lefel uwch, neu ar lefel strategol a chanol neu ar lefel ddydd i ddydd, mae unigolion allweddol yn galluogi staff addysgu i chwarae eu rôl, a datblygu eu dealltwriaeth a'u hyder parthed y newidiadau. Roedd arddull arweinyddiaeth yn

annog perchnogaeth, ymgysylltiad ac ymrwymiad mewn perthynas â gwerthoedd Dyfodol Llwyddiannus.

5.8 Amrywio y mae'r systemau mewnol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a rhannu ymarfer mewn ysgolion, ac maent yn aml yn anffurfiol. Mae'r gweithgareddau mewn sawl achos wedi'u cyfyngu i grwpiau dethol o staff addysgu. Felly, roedd cynnydd mewn perthynas â newid y cwricwlwm yn amrywio hyd yn oed ymhlith staff yn yr un ysgol. Nid yw systemau ffurfiol bob amser wedi'u sefydlu i gefnogi'r gweithlu ehangach yn yr ysgol nac i ledaenu i ysgolion eraill. Unwaith eto, roedd hyn yn bennaf oherwydd yr arddull a'r diwylliant o sicrhau bod cyflymder y newid yn gyson ym mhob maes ym mhob ysgol. Er enghraifft, nid ystyriwyd bod unrhyw angen i ddatblygu strwythurau ar gyfer lledaenu allanol tra bod yr ysgol ei hun yn dal wrthi'n datblygu ei darpariaeth cwricwlwm.

5.9 Mae aelodau o staff uwch sy'n gyfrifol am gynllunio strategol ar y newidiadau yn fodlon â'r systemau ar lefel genedlaethol i'w hysbysu o oblygiadau a gwerthoedd Dyfodol Llwyddiannus. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder yn ymwneud ag asesu ac atebolrwydd wedi cyfyngu ar uwch staff rhag cynllunio neu weithredu'r cwricwlwm y tu hwnt i CA3.

5.10 Yn ogystal, mae'r diffyg eglurder ynghylch meini prawf asesu ac ansicrwydd rhai staff addysgu a staff cymorth ynghylch eu rôl mewn cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn peri pryder i ysgolion wrth gynllunio a sicrhau adnoddau ar gyfer hyfforddiant sgiliau digonol ac effeithiol ar gyfer staff wrth baratoi at ragor o newid cwricwlwm pellach a newid yn y dyfodol.

5.11 Er bod rhai staff addysgu a staff cymorth yn ymwybodol o newid yn y cwricwlwm, er hynny nid ydynt yn gwybod am eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain o dan y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r aelodau staff hyn yn dymuno cael cefnogaeth bellach. Fodd bynnag, nid ystyria'r aelodau staff hynny bod systemau cenedlaethol ehangach gan y llywodraeth – megis cyfathrebu datblygiadau a goblygiadau'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar addysgu a staff – yn effeithiol. Nid yw staff addysgu yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth cyfredol a'r systemau ar gyfer lledaenu.

5.12 Roedd pryderon hefyd yn yr ysgolion uwchradd yn benodol nad oedd fawr ddim gwybodaeth os nad dim o gwbl wedi'i lledaenu'n effeithiol i rieni.

5.13 Roedd hyder, fodd bynnag, fod gan sefydliadau y systemau angenrheidiol ar waith, yn bennaf trwy gyrsiau hyfforddi mewnol neu gyrsiau wedi'u cynnal gan gonsortiwm, i sicrhau bod staff yn uwchsgilio'n ddigonol i gyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Er gwaethaf yr hyder hwn, dim ond ambell ysgol oedd wedi cynnal archwiliad ffurfiol o sgiliau'r gweithlu mewn perthynas â chwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

5.14 Codwyd pryderon hefyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ynghylch geiriad a lefel yr ymgysylltu beirniadol y mae dogfennaeth Gymraeg y cwricwlwm wedi'i gael. Ystyriai aelodau staff fod dogfennau'r cwricwlwm megis y datganiadau 'Beth sy'n Bwysig', ochr yn ochr â dogfen Dyfodol Llwyddiannus ei hun, yn ffynhonnell graidd i gael gwybodaeth am y cwricwlwm a disgwyliadau ysgolion, athrawon ac addysgu. Felly, i'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae pryder ynglŷn â geiriad a chyfathrebu gwybodaeth allweddol yn ymwneud â dogfennaeth y cwricwlwm a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymgysylltu beirniadol â'r fersiynau Cymraeg.

5.15 Yn y cyfamser, mae'r rhan fwyaf o'r staff, yn enwedig yr uwch staff sy'n gyfrifol am gynllunio strategol, yn cyd-fynd â'r gwerthoedd cyffredin sydd yn Dyfodol Llwyddiannus ac yn gefnogol iddynt. Roedd hwn yn ffactor allweddol a oedd wedi hybu diddordeb a chymhelliant ymysg staff o ran y broses newid cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o staff addysgu a staff cymorth yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a gynrychiolir yn Dyfodol Llwyddiannus nac yn cefnogi'r gwerthoedd hynny.

5.16 I gloi, roedd newid y cwricwlwm yn symud ar gyflymder yr ystyriai ysgolion a staff i fod yn ddigonol ac yn cyd-fynd â'r newidiadau ehangach i strategaethau, strwythurau a chapasiti sgiliau a dealltwriaeth y staff mewn perthynas â chyflwyno cwricwlwm a ysbrydolwyd gan werthoedd ac egwyddorion dogfen Dyfodol Llwyddiannus. Ystyriwyd bod yr arddull hon yn briodol ac yn bwysig wrth sicrhau rheoli llwyddiannus ar y newid.

5.17 Awgryma'r model rheoli newid, fodd bynnag, mai'r her sy'n codi yw sicrhau bod y systemau ehangach ar gyfer rhoi a lledaenu gwybodaeth i'r uwch staff a'r staff addysgu yn effeithiol ac yn ddigonol, a bod hyn wedi rhwystro datblygu pellach ar newid y cwricwlwm mewn rhai achosion.[21] Roedd uwch staff angen eglurder yn ymwneud â CA4, asesu ac atebolrwydd, tra bod staff addysgu a staff cymorth yn

---

[21] Enduring Ideas: The 7-S Framework

chwilio am wybodaeth fwy hygyrch am y disgwyliadau ar eu rolau mewn cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Yn ogystal, ystyriai rhai athrawon fod y systemau ar gyfer lledaenu ymarfer o ysgolion Arloesi i ysgolion eraill wrthi'n cael eu datblygu neu'n annigonol. Mae'r mater olaf hwn yn ymwneud â newid y cwricwlwm ar lefel genedlaethol.

**Y cwestiynau ymchwil craidd**

5.18 Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ysgolion Arloesi neu'n ysgolion Partner y gwyddys eu bod wedi gwthio ymlaen i ddatblygu'r math o gwricwlwm a'r trefniadau asesu a argymhellir yn Dyfodol Llwyddiannus. Ni ddylid ystyried canfyddiadau'r ymchwil hwn i fod yn gynrychioliadol o bob ysgol yng Nghymru. Yn hytrach, mae'r canfyddiadau'n cyfeirio at rai o'r ysgolion mwyaf datblygedig yng Nghymru o ran newid cwricwlwm ac yn tynnu sylw at gyfeiriad tebygol i ysgolion eraill yn y dyfodol.

*Ym mha ffyrdd y mae ysgolion yng Nghymru wedi addasu neu'n cynllunio i addasu eu strwythurau i'w cynorthwyo i gymryd camau tuag at y mathau o gwricwlwm a threfniadau asesu a argymhellir yn Dyfodol Llwyddiannus?*

5.19 Roedd pob ysgol wedi gosod diwygio'r cwricwlwm wrth wraidd eu Cynllun Gwella Ysgol, gan gyfeirio a chanolbwyntio adnoddau ac ymdrechion yr ysgol a'i staff ar ddatblygu a chyflwyno cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae gosod datblygu cwricwlwm yn ganolbwynt i gynllunio ysgol yn awgrymu'n gryf bod ysgolion yn neilltuo adnoddau ac ymdrech i wneud newidiadau a diwygiadau er mwyn cyflawni'r newid cwricwlwm a welir yn Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r strategaethau nawr yn ystyried ac yn gysylltiedig â newid strwythurau, datblygu sgiliau a chyflwyno gwerthoedd y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn raddol i staff ar gyflymder a ystyrir yn addas i'r ysgol honno.

5.20 Roedd ad-drefnu neu ailbennu cyfrifoldebau ymysg staff yn cynrychioli craidd y newidiadau strwythurol a wnaed. Mae newidiadau wedi'u cysylltu'n agos â strategaeth ehangach yr ysgol o newid ac addasu er mwyn darparu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus a chwricwlwm sy'n berthnasol i bob ysgol a'i gweithgareddau penodol hi.

5.21 Y tu hwnt i newidiadau strwythurol, mae ysgolion wedi cynnal gweithgareddau i roi gwybodaeth ac i hyfforddi aelodau staff i gyflwyno cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Mae staff yn yr ysgolion a samplwyd i gryn raddau yn cyd-fynd ac yn cefnogi gwerthoedd cwricwlwm sydd wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

Mae rhannu gwybodaeth a hyfforddiant hefyd wedi ceisio paratoi a rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r staff i gyflawni'r newidiadau.

5.22 Mae ysgolion hefyd wedi datblygu arddull a diwylliant cymharol gyffredin o ran newid cwricwlwm. Credir ei bod yn effeithiol dirprwyo cyfrifoldeb dros ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd yn yr ystafell ddosbarth i reolwyr canol a staff addysgu, a hynny'n meithrin brwdfrydedd ac ymdeimlad o berchnogaeth dros y newidiadau.

5.23 Fel y manylir ym Mhennod 3, gellir gosod y gweithgareddau penodol a wneir gan yr ysgolion dan sylw ar sbectrwm sy'n amrywio o ddiwygio strwythurol cymharol arwynebol i ddiwygio cynhwysfawr.

5.24 Ym mhob ysgol bron â bod cynhaliwyd gweithgareddau 'cyffyrddiad ysgafn' neu arwynebol megis rhannu gwybodaeth am ddatblygiad y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn ogystal â chynnal hyfforddiant i athrawon.

5.25 Mae bron pob ysgol hefyd wedi pennu cyfrifoldebau penodol am ddatblygu'r cwricwlwm i aelodau staff. Mae hyn yn amrywio o rolau goruchwylio strategol a chydlynu ar ran uwch staff ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain, i fod yn aelodau ac arwain timau sy'n cynllunio a chyflwyno'r addysgu 'o ddydd i ddydd'.

5.26 Ailystyriwyd strategaethau recriwtio mewn rhai ysgolion er mwyn datblygu casgliad sgiliau'r gweithlu ar gyfer y blynyddoedd nesaf, tra bod rhai ysgolion uwchradd wedi secondio athrawon ysgol gynradd a hynny wedi esgor ar ganlyniadau cadarnhaol.

5.27 Mae llawer o ysgolion hefyd wedi cynnal rhyw fath o ad-drefnu ar y gweithlu. Amrywia'r ad-drefnu hwn o secondio staff yn fewnol er mwyn datblygu 'wythnosau her' (gan gynnwys newidiadau i amserlenni a staffio) i sefydlu a phenodi staff i un Maes Dysgu a Phrofiad (neu hyd yn oed pob un o'r chwech ohonynt). Manteisiodd rhai ysgolion newydd sbon ar eu sefyllfa 'llechen lân' i sefydlu strwythurau gwahanol, tra bod eraill wedi mynd drwy brosesau ad-drefnu ledled yr ysgol. Uwch staff a llywodraethwyr yr ysgolion a fu'n gyfrifol am ddatblygu pob ad-drefnu a'r ad-drefnu hwnnw yn unigryw i'r ysgol honno. Bwriedid ac ystyrid yr ad-drefnu i fod yn briodol ar gyfer cyflwyno newidiadau presennol i'r cwricwlwm neu newidiadau yn y dyfodol.

*Ym mha ffyrdd y mae ysgolion yng Nghymru wedi addasu eu dysgu a'u haddysgu i adlewyrchu'r mathau o gwricwlwm a threfniadau asesu a argymhellir yn Dyfodol Llwyddiannus?*

5.28 Roedd pob ysgol wedi cynnal gweithgareddau i roi gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth ymhlith aelodau staff am y cwricwlwm sydd wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Ystyrid hyn gan amlaf fel y camau cyntaf tuag at baratoi athrawon at newid i gyd-fynd â chwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd rhai uwch staff wedi cyfyngu ar yr wybodaeth a roesant i athrawon nad ydynt yn ymwneud â gweithgareddau newid cwricwlwm er mwyn osgoi peri pryder.

5.29 Roedd hyfforddiant yn weithgaredd craidd oedd yn gysylltiedig â'r broses newid cwricwlwm yn yr ysgolion a samplwyd. Canolbwyntiai'r hyfforddiant ar ddatblygu addysgeg wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ymhlith aelodau'r staff. Roedd hyfforddiant a datblygiad gan amlaf yn gysylltiedig â datblygu dealltwriaeth a dulliau addysgu yn ôl y 12 egwyddor addysgegol, ond roedd hefyd wedi ymdrin â materion fel ymreolaeth y dysgwr, addysgu creadigol a dysgu trwy brofiad. Awgrymid yn aml gan staff uwch mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd fod yr her addysgegol yn fwy o her i aelodau staff mewn ysgolion uwchradd.

5.30 Y tu hwnt i'r ffocws ar roi gwybodaeth a hyfforddi athrawon wrth baratoi at y cwricwlwm newydd, mae ysgolion wedi bod yn addysgu trwy gwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn yr ystafell ddosbarth yn amrywio rhwng ysgolion.

5.31 Mae ysgolion cynradd wedi dewis canolbwyntio ar ddatblygu un Maes Dysgu a Phrofiad neu wneud yr holl addysgu trwy Feysydd Dysgu a Phrofiad, gan ymgorffori'r egwyddorion addysgegol a'r ffocws newydd yn gymharol ddi-dor yn yr addysgu arferol mewn ystafell ddosbarth.

5.32 Mae ysgolion uwchradd, ar y llaw arall, wedi ceisio ad-drefnu'r addysgu yn fwy sylfaenol, gan symud i ffwrdd o wersi traddodiadol sy'n benodol i bwnc. Mae rhai yn cynnal 'wythnosau her' ar thema i grwpiau dethol gan gael cymysgedd o athrawon yn cynllunio a chyflwyno'r wythnosau. Mae eraill wedi addysgu trwy un Maes Dysgu a Phrofiad, ochr yn ochr ag amserlen arferol. Mae rhai ysgolion wedi gwneud eu holl addysgu trwy'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i grwpiau blwyddyn gyfan.

5.33 Mae pedwar diben ac egwyddorion allweddol Dyfodol Llwyddiannus yn angori ac yn gweithredu fel man cychwyn ar gyfer pob cynllunio, tra bod rhai ysgolion wedi ceisio gwneud y datganiadau hyn yn eglur yn eu cyfathrebu â disgyblion. Wrth iddynt gael eu rhyddhau a'u cyhoeddi, mae datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' hefyd wedi'u cynnwys yn y cynllunio.

*Pam fod ysgolion yng Nghymru wedi gwneud y newidiadau?*

5.34 Mae ystod o gymhellion wedi ysgogi ysgolion i fwrw ati â'r agenda newid cwricwlwm ond yn bennaf mae'n deillio o ymrwymiad personol i'r agenda, arweinyddiaeth ysgol, y Model Ysgol Arloesi, a chymorth gan gonsortia.

5.35 Mae arweinyddiaeth strategol a gweithredol yn gymhelliant allweddol i aelodau'r staff. Yn arwyddocaol, er bod arweinyddiaeth strategol y broses newid cwricwlwm wedi'i phennu ar lefel yr uwch staff, sef aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn aml, eto roedd arweinyddiaeth y gwaith cynllunio a chyflwyno cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus o ddydd i ddydd ar lefel dosbarth yn aml wedi'i throsglwyddo i reolwyr canol a staff addysgu. Credid bod hyn yn ffordd arbennig o effeithiol o gyflwyno'r newid ac o feithrin cefnogaeth a diddordeb yn y broses newid cwricwlwm ehangach ymhlith aelodau staff unigol.

*Pa heriau sy'n gysylltiedig ag addasu gweithgarwch fel hyn?*

5.36 Gellid dosbarthu'r rhwystrau a heriau a nodwyd yn rhwystrau ymarferol a rhwystrau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch datblygiad y cwricwlwm yn y dyfodol.

5.37 Yn hollbwysig, ac yn fwyaf cyffredin ymhlith uwch staff, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, roedd pryder ynghylch pa ffurf y byddai i'r meini prawf asesu ac atebolrwydd, gan gynnwys sut y byddid yn tystiolaethu cyrhaeddiad mewn fframwaith asesu wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Arweiniodd hyn at beidio cynnwys CA4 yn y newidiadau i'r cwricwlwm. Credid hefyd y byddai'r manylion ar y materion hyn yn y pen draw yn rhoi strwythur ac yn effeithio ar sut y byddai ysgolion yn mynd i'r afael â chwricwlwm newydd.

5.38 Awgrymwyd y gallai systemau cenedlaethol ar gyfer lledaenu gwybodaeth a datblygiadau mewn perthynas â CA4, asesu ac atebolrwydd, roi mwy o sicrwydd i uwch staff sy'n amharod i gynllunio a chyflwyno newidiadau i'r cyfnod ar ôl CA3.

5.39 Nid oedd lleiafrif o staff, yn enwedig staff addysgu a staff cymorth addysgu, mor gadarnhaol â'r rhan fwyaf o staff yn eu barn am weledigaeth Dyfodol Llwyddiannus fel y cyfeiriad iawn i'r dyfodol. At hynny, daeth yn amlwg fod diffyg dealltwriaeth o rolau personol a phryder ynghylch strwythurau asesu ac atebolrwydd yn rhwystrau i'r staff hyn. Amlygodd y model rheoli newid y gallai systemau cenedlaethol ar gyfer lledaenu gwybodaeth o'r fath gynnig cefnogaeth fwy perthnasol a haws ei chael i staff addysgu a staff cymorth addysgu.

5.40 Credid bod y consortia wrthi'n datblygu systemau ar gyfer rhannu ymarfer a dysgu rhwng ysgolion. Mae rhai gweithgareddau rhannu ymarfer wedi digwydd rhwng ysgolion, er nad oes llawer o gysondeb i'r gweithgareddau hynny.

5.41 Roedd yr argraff fod yn rhaid cadw at ofynion y cwricwlwm presennol a'r cwricwlwm newydd wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ar yr un pryd yn codi her benodol i staff addysgu. Yn benodol, mae gwahaniaeth mawr rhwng y gwahanol feini prawf asesu ar lefel sylfaenol, athronyddol.

5.42 Roedd agweddau penodol ar gwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus yn peri pryder i rai ysgolion, megis darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng a sgiliau a goblygiadau hyfforddi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

5.43 Yn ogystal, roedd pryderon ynghylch geiriad y cwricwlwm Cymraeg, ac uwch staff yn pryderu nad yw'r dogfennau a'r cyfarwyddiadau swyddogol wedi'u datblygu'n feirniadol i'r un graddau â'r fersiynau Saesneg.

5.44 Roedd y ffin rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd yn her benodol wrth ddatblygu continwwm dysgu. Er bod ysgolion yn datblygu gweithgareddau ar gyfer hyn, mae'r rhwystrau corfforol yn arwyddocaol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r cam 'canol' datblygol sy'n pontio rhwng diwedd ysgol gynradd a dechrau'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, mae gan ysgolion canol (3-16 oed neu 3-19 oed) fanteision amlwg sy'n rhoi modd mynd i'r afael â'r her hon yn fwy effeithiol.

*Sut mae'r newidiadau/dulliau hyn wedi cefnogi a pharatoi ymarferwyr at y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd?*

5.45 Soniodd yr uwch staff a'r staff addysgu am fod yn hyderus ac yn barod at ddatblygiad pellach y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Roedd llawer o ysgolion wedi gwneud newidiadau strwythurol ac wedi dechrau addysgu trwy'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus ac o ganlyniad roeddent yn paratoi i gymryd camau pellach wrth fynd ati'n raddol i gyflwyno agweddau ehangach y cwricwlwm trwy'r ysgolion.

5.46 Yn fwy penodol, datblygwyd strategaethau gyda'r blynyddoedd nesaf mewn golwg, gan ddyrannu cyllid ac adnoddau ar gyfer datblygiad parhaus y cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus. Felly, roedd pob ysgol wedi dechrau ond hefyd wedi rhagweld a cheisio cynllunio ar gyfer newidiadau pellach i addysgu ac i

strwythurau wrth baratoi at ddechrau cyflwyno'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

5.47 Nid oes yr un ysgol wedi ceisio cyflwyno newidiadau i'r cyfnod CA4 / TGAU. Roedd hyn oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol asesu CA4 o dan gwricwlwm wedi'i newid, yn ogystal â phryder ynghylch y syniad o ymyrryd â'r addysgu cyfredol yn CA4 / TGAU. Erys rhwystr rhwng yr addysgu a strwythurau a newidiwyd, a'r addysgu a strwythurau CA4 / TGAU mewn ysgolion uwchradd. Felly, mewn gwirionedd hyd at flwyddyn 9 yn unig y mae newidiadau yn cael eu datblygu.

5.48 Yn ôl uwch staff, roedd rhoi gwybodaeth a hyfforddi staff mewn perthynas â'r cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus wedi meithrin brwdfrydedd ac ennyn diddordeb yn y newidiadau a gâi eu gweithredu yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Soniwyd yn benodol fod diwrnodau HMS yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu profiadau ac ymarfer, tra bod rhannu profiadau anffurfiol rhwng athrawon hefyd yn amlwg yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw.

5.49 Ystyriwyd bod dirprwyo'r gwaith o ddatblygu elfennau addysgu'r cwricwlwm i reolwyr canol a thimau o staff addysgu wedi bod yn alluogydd. Credid bod pennu cyfrifoldebau wedi trosglwyddo'r berchnogaeth ar y broses datblygu cwricwlwm i'r aelodau staff hynny. Roedd perchnogaeth a chyfrifoldeb yn ffactorau ysgogol allweddol i'r aelodau staff hynny.

5.50 Ar ben hynny, teimlwyd bod y timau oedd â'r cyfrifoldeb am ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth yn arwain proses anffurfiol o rannu arbenigedd ymysg staff. Gallai aelodau'r staff gydweithio ar draws meysydd pwnc er mwyn cynllunio a datblygu cwricwlwm wedi'i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

5.51 Mae'r amrywiol dimau o staff a sefydlwyd yn sgil ad-drefnu'r staff wedi sicrhau bod ystod o weithgareddau wedi'u cynnal ledled yr ysgolion a samplwyd. Amrywia'r rhain o wythnosau addysgu ar thema, dosbarthiadau cynradd yn canolbwyntio ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad, i grwpiau blwyddyn gyfan yn addysgu MDaPh ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan.

5.52 Newidiwyd strategaethau recriwtio i fynd i'r afael â gofynion canfyddedig yn ymwneud â sgiliau a phrofiad. Yn fwyaf nodedig ac yn llwyddiannus ym marn uwch staff, roedd ambell ysgol uwchradd wedi secondio athrawon cynradd i ymuno â'r timau staff oedd â'r dasg o ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth. Ystyriwyd bod y profiad ysgol gynradd yn berthnasol ac yn werthfawr i staff eraill wrth fynd i'r afael â'r

egwyddorion addysgegol a’r methodolegau addysgu a ysbrydolwyd gan ddogfen Dyfodol Llwyddiannus.

5.53 Roedd yr ad-drefnu staff a wnaed wedi digwydd i raddau amrywiol. Mewn rhai achosion, roedd timau penodol o staff wedi’u pennu’n gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno’r cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth. Mewn achosion eraill, diwygiwyd strwythurau staffio cyfan yn unol â Maes Dysgu a Phrofiad yn hytrach nag adrannau. Roedd yr ad-drefnu staff wedi arwain at ganolbwyntio’r addysgu yn yr ystafell ddosbarth ar yr egwyddorion a’r dulliau a ysbrydolwyd gan ddogfen Dyfodol Llwyddiannus. Roedd y newidiadau i strwythur y staff yn berthnasol i weithgareddau pob ysgol ond fe’u cynlluniwyd ymhob achos i sicrhau bod adnoddau staffio digonol ar gael ar gyfer dylunio ac addysgu’r cwricwlwm newydd.

5.54 Er bod ysgolion wedi cynllunio’r ad-drefnu strwythurau staff i fod y ffordd orau i gefnogi addysgu yn yr ystafell ddosbarth o dan gwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus, eto roedd y strwythurau staff ar eu newydd wedd yn dal i gyflwyno’r cwricwlwm presennol ochr yn ochr â’r cynlluniau i gefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd. Er ei fod yn ddymunol gan lawer o ysgolion, nid oedd ad-drefnu staff o reidrwydd yn rhagflaenydd i ddatblygu a chyflwyno’r cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus yn yr ysgolion a samplwyd.

5.55 Roedd y staff a oedd yn gysylltiedig â datblygu’r cwricwlwm a gweithgareddau Arloesi yn hyderus ac yn gyffrous ynghylch y syniad o ddatblygu ymhellach a mynd ati’n raddol i gyflwyno cwricwlwm wedi’i ysbrydoli gan Dyfodol Llwyddiannus.

5.56 Ymddengys bod gan leiafrif o staff addysgu a staff cymorth addysgu amheuon mewn perthynas â deall y disgwyliadau ar athrawon ac ai Dyfodol Llwyddiannus yw’r ffordd orau o ddiwygio’r cwricwlwm.

*A oes gan ysgolion yng Nghymru gynlluniau ar gyfer gwneud newidiadau eraill i strwythurau addysgu a dysgu i baratoi at newidiadau i’r system addysg yng Nghymru?*

5.57 Fel y nodwyd yn flaenorol, drwy ymgorffori newid cwricwlwm i’w Cynlluniau Gwella Ysgolion ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi, awgrymir yn gryf y bwriedir newid y cwricwlwm, bod adnoddau ar gyfer hynny a’i fod yn cael ei bwysleisio yn yr ysgolion hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

5.58 Ystyriai nifer o ysgolion fod y gweithgareddau a gefnogid gan raglen Arloesi yn gamau cychwynnol ar siwrnai hirach tuag at newid cwricwlwm llwyddiannus. Roedd llwyddiannau'r gweithgareddau eisoes yn cael eu datblygu a'u hailadrodd ledled yr ysgolion.

5.59 Rhwystr allweddol oedd yn parhau oedd y diffyg manylion ar asesu CA4 / TGAU a meini prawf atebolrwydd ysgolion. Mae'r elfennau hyn yn debygol o roi strwythur a dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol a natur cyflwyno'r cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth.

## Atodiad A

| Strategaeth | Strwythur | Systemau | Gwerthoedd Cyffredin | Arddull | Staff | Sgiliau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pa newidiadau y mae'r ysgol wedi'u gwneud i'w strategaeth yng nghyswllt y cwricwlwm newydd? Cynllun Datblygu Ysgol? | A yw'r ysgol wedi gwneud unrhyw newidiadau sefydliadol? | A oes systemau ar waith i gryfhau a chefnogi newidiadau effeithiol sydd wedi, neu wrthi'n, cael eu gweithredu? | A yw holl aelodau'r staff, gan gynnwys staff addysgu, cymorth, arweinyddiaeth yn ogystal â'r llywodraethwyr: | Pwy sy'n arwain y newid, a pha mor weithgar yw'r arweinyddiaeth hon wrth arwain, atgyfnerthu ac ymgorffori'r newidiadau? | A yw aelodau'r staff yn ymwybodol o'r cwricwlwm newydd? | A oes gan y staff y sgiliau i ddeall a mynd ati'n llwyddiannus i weithredu cwricwlwm newydd? |
| Sut bydd y strategaeth newydd/cynllun gwella ysgol yn cyfrannu at y cwricwlwm newydd? | Cyfrifoldebau athrawon/staff wrth addasu i'r cwricwlwm newydd? | A oes systemau ar waith i rannu ymarfer da sy'n berthnasol i weithredu'r cwricwlwm newydd? | 1) yn ymwybodol o Dyfodol Llwyddiannus ac o leiaf am ei egwyddorion craidd megis y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r pedwar diben? | A yw'r arddull yn cael ei werthfawrogi neu ei wrthwynebu gan y staff ehangach? | A oes ganddynt yr awydd i roi'r cwricwlwm newydd ar waith? | A yw'r ysgol wedi nodi unrhyw anghenion sgiliau yn y gweithlu? |
| | | A oes ffynonellau cymorth a gwybodaeth ar gyfer staff sy'n bwriadu gwneud y newidiadau hyn? A yw'r ffynonellau hyn yn caniatáu risg a methu? Gallai hyn olygu bod rheolwyr yn agored ac yn gefnogol, ac yn ymwybodol o amheuon a phryderon. | 2) wedi ymrwymo i ddiwygio'r cwricwlwm a rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus? A oes gwrthwynebiad i'r newidiadau – pam / ar ba ffurf? | A yw'r cyfathrebu rhwng yr arweinyddiaeth a'r staff yn effeithiol ac yn gefnogol i'r newidiadau? | A yw aelodau'r staff yn gwybod am y newidiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud a'u gweithredu er mwyn sicrhau rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus? | A oes gan y staff a'r strwythurau neu systemau newydd ddigon o amser i 'fwrw gwreiddiau' ac ymsefydlu eu hunain fel y 'norm' newydd yn dilyn newidiadau? |

| Strategaeth | Strwythur | Systemau | Gwerthoedd Cyffredin | Arddull | Staff | Sgiliau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A oes deunyddiau ac/neu adnoddau wedi'u llunio i gefnogi'r newidiadau i'r addysgu neu unrhyw agweddau eraill? | 3) a yw'r diwylliant addysgu yn newid tuag at y ddelfryd a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus? | A yw unigolion wedi'u grymuso i fentro gwneud newidiadau? | A yw aelodau'r staff wedi cael y sgiliau angenrheidiol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus? | A oes systemau rhannu ymarfer a gwybodaeth ar waith yn yr ysgol i fynd ati'n gadarnhaol i atgyfnerthu a rhannu'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu? |
| | | | | | Ar ôl gweithredu newidiadau, a yw staff yn cadw at y ffyrdd newydd o weithio, ac yn osgoi dychwelyd at yr hen arferion a dulliau gweithio? | |

**Atodiad B**

*Holiadur cyn cyfweliad (Athrawon | Uwch Dîm Arwain | Penaethiaid | Llywodraethwyr)*

Ysgol: _______________

Rôl: _______________

A yw eich ysgol chi yn ysgol Arloesi?

*Ydi | Nac ydi | Ddim yn gwybod*

A fyddech gystal ag ymateb i bob datganiad drwy roi tic yn y blwch perthnasol.

| Datganiad | Anghytuno'n llwyr | Anghytuno i ryw raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno i ryw raddau | Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod angen diwygio'r cwricwlwm presennol | | | | | |
| Rwy'n ymwybodol o'r ddogfen Dyfodol Llwyddiannus a'r cwricwlwm newydd sydd wedi'i gynnig gan yr Athro Donaldson | | | | | |
| Nid wyf yn gwybod beth fydd gofynion fy rôl o dan y cwricwlwm newydd | | | | | |
| Credaf mai Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffordd orau o ddiwygio'r cwricwlwm | | | | | |
| Rwy'n awyddus i fy ysgol fabwysiadu'r cwricwlwm newydd | | | | | |
| Rwy'n awyddus i chwarae fy rhan wrth fabwysiadu'r cwricwlwm newydd | | | | | |
| Ni fydd yr hyn a wnaf i yn cael unrhyw effaith ar y cwricwlwm newydd | | | | | |
| Rwy'n gwybod beth sydd angen i mi ei wneud er mwyn addasu i'r cwricwlwm newydd a chydymffurfio ag ef | | | | | |
| Rwy'n hyderus y gallaf wneud y newidiadau a chydymffurfio â'r cwricwlwm newydd | | | | | |
| Mae'r sgiliau a'r wybodaeth gennyf eisoes i addasu i'r cwricwlwm newydd a chydymffurfio ag ef | | | | | |
| Rwy'n deall y newidiadau rwyf wedi'u gwneud er mwyn addasu i'r cwricwlwm newydd a chydymffurfio ag ef | | | | | |
| Gallwn gefnogi eraill mewn swydd debyg i addasu i'r cwricwlwm newydd a chydymffurfio ag ef | | | | | |

**Atodiad C**

**Llun 2: Taflenni Cynllunio o Ysgol Uwchradd Ddwyieithog sy’n Ysgol Arloesi Dylunio a Datblygu’r Cwricwlwm**

### Y PEDWAR DIBEN

MAES DYSGU A PHROFIAD : ____________________

Adran : ____________

| | Y Diben | Y Datganiad | Gweithgaredd / Gwers / Uned | Y Tystiolaeth Arloesol a Chreadigol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |

### YN DDYSGWYR UCHELGEISIOL, GALLUOG SYDD YN BAROD I DDYSGU DRWY GYDOL EU HOES

| Datganiad y Pedwar Diben | Tystiolaeth / enghraifft o weithgaredd | |
|---|---|---|
| yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau | | |
| yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â’r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu’r wybodaeth honno a’i chymhwyso at wahanol gyd-destunau | | |
| yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau | | |
| yn gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg | | |
| yn gallu egluro’r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt | | |
| yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau | | |
| yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol | | |
| yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a’i dadansoddi | | |
| yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau’n feirniadol | | |